

## Agenda – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo Gynadledda drwy Zoom	Marc Wyn Jones
Dyddiad: Dydd Iau, 17 Medi 2020	Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddNHAMG@senedd.cymru">SeneddNHAMG@senedd.cymru</a>

---

### PREIFAT Rhag-gyfarfod anffurfiol (13:30–13:45)

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv).

### CYHOEDDUS 13:45 – 15:30

#### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

#### 2 COVID-19: Sesiwn graffu gyda Llywodraeth Cymru

(13:45 – 14:30)

(Tudalennau 1 – 24)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a'r Môr

Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol

John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Tim Render, Cyfarwyddwr Tir, Natur a Bwyd



Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Ymateb Llywodraeth Cymru i lythyr y Cadeirydd yn dilyn sesiwn graffu'r  
Gweinidog ar 9 Gorffennaf 2020

## **EGWYL (14:30–14:45)**

### **3 COVID–19: Parhau gyda sesiwn graffu Llywodraeth Cymru**

(14:45 – 15:30)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a'r Môr

Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol

John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Tim Render, Cyfarwyddwr Tir, Natur a Bwyd

### **4 Papurau i'w nodi**

#### **4.1 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn dilyn sesiwn dystiolaeth 9 Gorffennaf 2020 ar ymateb y Llywodraeth i'r argyfwng Covid–19**

(Tudalennau 25 – 28)

Dogfennau atodol:

Llythyr

#### **4.2 Gohebiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn sesiwn dystiolaeth 9 Gorffennaf 2020 ar ymateb y Llywodraeth i'r argyfwng Covid–19**

(Tudalennau 29 – 32)

Dogfennau atodol:

Llythyr (Saesneg yn unig)

**4.3 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig – Prynu Gwybodus a Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014**

(Tudalennau 33 – 35)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.4 Ymateb Llywodraeth Cymru at lythyr y Cadeirydd ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Pysgodfeydd**

(Tudalennau 36 – 44)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.5 Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU**

(Tudalennau 45 – 54)

Dogfennau atodol:

Ymateb

**4.6 Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol i'r Bil Amaethyddiaeth**

(Tudalennau 55 – 70)

Dogfennau atodol:

Ymateb (Saesneg yn unig)

**4.7 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch fframwaith deddfwriaethol cynllun y taliad sylfaenol a chymorth gwledig o 2021**

(Tudalennau 71 – 72)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.8 Gohebiaeth rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020**

(Tudalennau 73 – 77)

Dogfennau atodol:

Llythyrau

**4.9 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU**

(Tudalennau 78 – 84)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog

Llythyr gan y Cadeirydd

**4.10 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU**

(Tudalennau 85 – 90)

Dogfennau atodol:

Llythyr a dogfen gryno (dogfen gryno – Saesneg yn unig)

**4.11 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021–22**

(Tudalennau 91 – 93)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.12 Gohebiaeth gan David Hughes mewn perthynas â golygu genynnau**

(Tudalennau 94 – 95)

Dogfennau atodol:

Gwahoddiad (Saesneg yn unig)

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 24 Medi 2020**

**PREIFAT 15:30 – 16:00**

**6 COVID–19: Trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitemau 2 a 3**

**7 Trafod adroddiad drafft y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad  
Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU**

(Tudalennau 96 – 113)

Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

Nodyn cyfreithiol (Saesneg yn unig)

**8 Trafodaeth ar flaenraglen waith drafft y Pwyllgor**

(Tudalennau 114 – 118)

Dogfennau atodol:

Papur (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Mike Hedges AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

9 Medi 2020

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Gorffennaf yn cynnwys cwestiynau atodol o'ch sesiwn dyddiedig 9 Gorffennaf.

Isod, rwyf wedi rhestru eich cwestiynau gyda'r atebion priodol.

## **Pysgodfeydd**

- 1. Roeddech chi wedi dweud wrth y Pwyllgor eich bod yn gobeithio gwneud datganiad ynghylch polisi pysgodfeydd yn y dyfodol ym mis Mawrth, ond ei fod wedi cael ei oedi oherwydd pandemig Covid-19. Oes modd i chi ddweud wrth y Pwyllgor pa bryd rydych yn disgwyl gallu gwneud y datganiad hwnnw?**
- 2. O ran Grant Pysgodfeydd Cymru, roeddech chi wedi dweud wrth y Pwyllgor bod 120 o gychod wedi cael cymorth grant gwerth dros £0.5 miliwn. Oes modd i chi gadarnhau beth yw pwrpas y grant hwn, a sut byddwch yn penderfynu a yw wedi bod yn effeithiol ai peidio?**

Roedd Grant Pysgodfeydd Cymru ar gyfer busnesau pysgota economaidd ymarferol sydd wedi'u trwyddedu yng Nghymru. Cafodd y cynllun grant ei ddatblygu i bontio'r blwch yn y cymorth a ddarperir ar gyfer y sector hwn, gan barhau i fod yn gyson o ran cyllid â'r Gronfa Cadernid Economaidd. Nod y cynllun grant oedd helpu i gynnal busnesau pysgota yng Nghymru yn ystod unrhyw amhariad economaidd tymor byr i sicrhau bod cychod yn parhau i bysgota y tu hwnt i argyfwng iechyd y cyhoedd COVID-19.

Gellir ystyried Grant Pysgodfeydd Cymru yn llwyddiant hyd yma, oherwydd mae wedi llwyddo i roi cymorth i 97% o fusnesau pysgota economaidd ymarferol yng Nghymru a nodwyd ymlaen llaw. Yn ogystal â hyn, cafodd 12 busnes arall nad oedd yn bodloni meini prawf y cynllun i ddechrau eu hystyried fesul achos, a chawsant gymorth. Datblygwyd i grant i sicrhau y gall busnesau pysgota economaidd ymarferol barhau i bysgota ar ôl Covid-19, a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro capasiti fflyd Cymru wrth i'r sector gael ei gefn ato ar ôl Covid-19 i bennu effeithiolrwydd yr ymyriad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**3. Mae'r grant £0.5 miliwn yn cynrychioli tua £4,000 y cwch pysgota ar gyfartaledd. Oes modd i chi gadarnhau eich bod yn fodlon bod y cyllid hwn yn ddigonol? Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer rhagor o gymorth ariannol i'r sector hwn er mwyn ei helpu i gael ei gefn ato?**

Rwyf yn fodlon bod cyfanswm gwerth y grant wedi darparu'r lefel angenrheidiol o gymorth i'r diwydiant pysgota yn ystod y cyfnod hwn/ Roedd symiau'r grant yn seiliedig ar gostau sefydlog misol cyfartalog yn ôl maint y cwch. Cafodd y rhain eu datblygu o arolwg blynyddol o'r diwydiant gan Seafish, corff cyhoeddus anadrannol. Roedd hyn yn rhoi lefel briodol o gymorth i'r busnesau unigol a nodwyd.

Bydd rhagor o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gael i roi cymorth i fusnesau dyframaethu cymwys yng Nghymru sy'n cynhyrchu stoc i'r bwrdd. Agorodd y Cynllun Cymorth i Fusnesau Dyframaethu ar 10 Awst, ac mae'n cau ar 21 Medi. Mae'n cael ei reoli drwy Taliadau Gwledig Cymru a bydd yn cael ei gyflenwi drwy Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Bydd y cynllun hwn yn darparu cymorth tymor byr ar gyfer colledion o ganlyniad i bandemig Covid-19.

**4. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cyfeirioch at sawl enghraifft o weithgarwch pysgota anghyfreithlon. Oes modd i chi roi manylion i'r Pwyllgor am y lefelau o weithgarwch anghyfreithlon yn ystod y cyfnod diweddar hwn pan nad yw'r cychod gorfodi wedi bod yn patrolio dyfroedd Cymru? Oes modd i chi gadarnhau bod yr holl gychod gorfodi yn weithredol bellach?**

Mae'r dystiolaeth a'r wybodaeth yn awgrymu er bod rhywfaint o weithgarwch pysgota anghyfreithlon wedi digwydd o bosibl, nid oes awgrym o gynnydd yn yr ymddygiad hwn yn ystod y cyfyngiadau symud. Nid oedd yn eang nac ar raddfa fawr. Fodd bynnag, mae unrhyw bysgota anghyfreithlon yn annerbyniol a lle bo'n bosibl, bydd camau gweithredu yn cael eu cymryd. Mae holl gychod patrolio pysgodfeydd Llywodraeth Cymru yn weithredol bellach.

## **Yr Amgylchedd**

**5. Rydym wedi clywed bod yr oedi o ran taliadau gan y Cynllun Rheoli Cynaliadwy wedi achosi problemau i rai cyrff anllywodraethol. Oes modd i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa i'r Pwyllgor ac, os oes materion heb eu datrys, pennu amserlen ar gyfer gwneud hynny?**

Nod Taliadau Gwledig Cymru yw prosesu pob hawliad i'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy cyn pen 30 diwrnod ar ôl cael ffurflen hawlio gyflawn, yn cynnwys yr holl dystiolaeth ddogfennol ategol. Rhaid ystyried pob hawliad a'r holl ddogfennau ategol yn ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â rheolau'r cynllun a Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd.

Hyd yma, rydym wedi cael 137 hawliad o 29 o'n 31 o brosiectau'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy. O blith y rhain mae 126 wedi cael eu prosesu ar gyfer taliadau gwerth £6.1m. Yr amser a gymerwyd i brosesu'r hawliadau hyn oed 37 diwrnod ar gyfartaledd. Cafodd bron i hanner eu prosesu cyn pen 30 diwrnod ar ôl eu cael.

O blith yr 11 hawliad sy'n weddill, mae pump yn aros am ragor o wybodaeth gan y buddiolwr ac mae un hawliad yn amodol ar arolygiad gweinyddol 'in-situ'. Mae'r pum hawliad sy'n weddill yng nghanol y broses dilysu hawliadau lawn, ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw faterion sylweddol heb eu datrys.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Taliadau Gwledig Cymru wedi bod yn destun nifer o archwiliadau. Daeth yr un diweddaraf gan Archwilio Cymru. Cafodd ei adroddiad 'Sicrhau bod grantiau datblygu gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian' ei



gyhoeddi'n ddiweddar. Mae'r materion sy'n cael sylw yn yr adroddiad yn rhai y mae swyddogion Taliadau Gwledig Cymru eisoes wedi eu nodi a'u cryfhau. Mae Taliadau Gwledig Cymru yn gwneud pob ymdrech i brosesu'r hawliadau sy'n weddill ar gyfer taliad cyn gynted ag y bo modd.

## **6. Yn ystod y sesiwn, roeddech wedi cyfeirio at yr angen i sicrhau “adferiad gwyrdd” ar ôl pandemig Covid-19. Oes modd i chi amlinellu eich cynlluniau ar gyfer adferiad gwyrdd yng Nghymru? A ydych yn bwriadu cyhoeddi cynllun neu strategaeth er mwyn i bobl eraill weld y cyfeiriad teithio?**

Yn y bôn, mae'n rhaid i adferiad gwyrdd ar ôl pandemig Covid-19 fod yn un sy'n gweithio i ailadeiladu ein heconomi, gan fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol difrifol sy'n ein hwynebu ar yr un pryd, yn ogystal â gwella cydnerthedd ein holl gymunedau. Nid yw hyn yn golygu canolbwyntio ar yr amgylchedd a dim arall. Mae'n golygu gwneud y cysylltiadau rhwng gwella canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol er mwyn cynyddu cydnerthedd. Mae hyn yn golygu cyd-drefnu polisiau a darpariaeth a fydd yn cyflymu'r broses o bontio i economi carbon isel, a Chymru iachach sy'n fwy cyfartal.

Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn arwain cyfres o drafodaethau bwrdd crwn gydag arbenigwyr o bob rhan o gymdeithas, o Gymru a thu hwnt. Mae'r trafodaethau hyd yma wedi bod yn llawn gwybodaeth, a byddwn yn parhau i gyhoeddi adroddiadau cryno. Y bwriad yw adeiladu ar hyn drwy gyfres arall o drafodaethau bwrdd crwn ar-lein dros yr wythnosau nesaf.

Cyhoeddwyd gwahoddiad agored i bobl yng Nghymru gyflwyno eu safbwyntiau ar sut dylid cefnogi'r adferiad ar ôl Covid yn y dyfodol, ac roedd fy nghyd-weithwyr Gweinidogol wedi ysgrifennu at eu rhanddeiliaid i'w gwahodd i gyflwyno eu safbwyntiau drwy'r un sianel erbyn diwedd mis Gorffennaf. Rydym nawr yn ystyried y cyfraniadau hyn fel rhan o'r gwaith adfer. Ond bydd y deialog hwnnw'n dal ar agor.

Ar ôl i ni weld safbwyntiau a chynigion ein holl rhanddeiliaid, byddwn mewn safle i allu amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer adfer, gan gynnwys ynghylch yr elfennau hynny sy'n mynd i'r afael â lefelau defnyddio anghynaliadwy, yn hybu bioamrywiaeth, ac yn cyflymu'r broses o bontio i economi carbon isel.

O ran y cyfeiriad teithio yn y lle cyntaf, efallai y bydd Aelodau o'r Pwyllgor yn dymuno gwybod y bydd y materion cyntaf i'w hystyried yn cynnwys: sut rydym yn buddsoddi yn ein pobl drwy eu cyflenwi â sgiliau ar gyfer yr economi ar ôl Covid a'r gallu i addasu mae dysgu gydol oes yn ei ddarparu; sut rydym yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy; sut rydym yn meithrin creadigrwydd ein busnesau cynhenid; a sut rydym yn ailddychmygu canol ein trefi er mwyn iddynt fod yn ganolfannau cymunedol bywiog unwaith eto.

## **7. Sut bydd Aelodau'r Senedd a'r cyhoedd yng Nghymru yn gallu barnu a yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni “adferiad gwyrdd”?**

Rwy'n croesawu diddordeb a gwaith craffu'r Pwyllgor yn hyn o beth, yn ogystal â'r syniadau am gamau gweithredu a gyflwynwyd gan ddinasyddion a rhanddeiliaid. Yr hyn sy'n dod i'r amlwg yw bod consensws eang ynghylch nifer o feysydd blaenoriaeth, o helpu ein cymunedau a'n trefi i ailadeiladu, i gymryd camau i ddiogelu ac adfer ein hamgylchedd. Byddwn yn parhau i drafod ein cynigion ar gyfer camau gweithredu â dinasyddion a rhanddeiliaid wrth i ni barhau i gael ein cefn atom ar ôl y digwyddiad digynsail hwn.

Mae'r ansicrwydd presennol yn golygu nad oes modd rhag-weld patrwm ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol yn gywir. Mae ffactorau byd-eang a allai gynorthwyo neu rwystru ein hymdrechion yma yng Nghymru, gan gynnwys helyntion parhaus yr economi fyd-eang, Brexit, ac effaith digwyddiadau hinsoddol.

Fodd bynnag, ni fydd hyn yn ein hatal rhag ymdrechu i sicrhau adferiad gwyrdd sy'n gweithio i gymryd camau ystyrion, wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol difrifol sy'n ein hwynebu ac i wella ein cydnerthedd ym mhob cymuned.

Wrth gwrs byddwn yn parhau i gyhoeddi datganiadau, data ac adroddiadau am ein cynnydd ar faterion amgylcheddol a materion sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft allyriadau carbon a chynnydd yn erbyn ein targedau o ran ein cyllideb garbon.

## **8. Oes modd i chi ddarparu manylion am bwrpas ac aelodaeth y tasglu bioamrywiaeth? Mae cyllid gwerth £0.5 miliwn wedi cael ei ddyrannu i'r tasglu. Pa ganlyniadau ydych yn disgwyl eu gweld o ganlyniad i'ch buddsoddiad?**

Pwrpas y Tasglu Bioamrywiaeth yw prif ffrydio'r ddarpariaeth ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar draws Llywodraeth Cymru a'n partneriaid. Mae sefydlu'r tasglu yn cyflawni yn erbyn blaenoriaeth y Prif Weinidog i fynd i'r afael â'r heriau o ran natur a'r newid yn yr hinsawdd. Mae sicrhau trawsnewidiad yn golygu bod yn rhaid i ni brif ffrydio bioamrywiaeth ar draws Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid. Mae hyn yn golygu newid sylfaenol ar hyd a lled y system o ran datblygu polisiau, dyrannu cyllid, a gweithredu cynlluniau i weithio dros natur, nid yn ei herbyn.

Rwyf wedi amlinellu tri amcan ar gyfer y tasglu er mwyn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio trawslywodraethol, cyllidebau cyfun, rhannu arbenigedd ac ymyriadau sy'n cael effaith ar draws yr holl nodau llesiant. Bydd yr amcanion hyn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- pobl – i gynyddu gwybodaeth a chapasiti er mwyn sbarduno newid ymddygiad;
- prosesau – i ddylanwadu ar y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu ei chyllidebau a'r gwariant sector cyhoeddus ehangach;
- rhoi cynnig ar ddulliau newydd o gefnogi trawsnewidiad bioamrywiaeth, gan gynnwys modelau gwerthuso effeithiol.

Bydd y camau gweithredu a gymerir i gyflawni'r amcanion hyn yn sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- newid ymddygiad a newid sefydliadol i sbarduno gwelliannau o ran prosesau, datblygu polisiau a gwneud penderfyniadau;
- defnyddio arian cyhoeddus yn fwy strategol er mwyn sicrhau buddion bioamrywiaeth;
- gwelliannau o ran gwerthuso i nodi pa ddulliau peilot sy'n cael yr effaith fwyaf ac mae modd eu hatgynhyrchu.

Bydd y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu i gefnogi trawsnewidiad yn cael ei wneud drwy dasglu mewnol, wedi'i gefnogi gan banel arbenigol allanol lle bo'n berthnasol. Bydd y tasglu hefyd yn gweithio gyda'r byd academiaidd i nodi'r ymchwil diweddaraf, enghreifftiau o'r arferion gorau, a bylchau posibl er mwyn mynd i'r afael â'r her o brif ffrydio bioamrywiaeth.

Bydd y tasglu'n cynnwys uwch swyddogion polisi o bob rhan o Lywodraeth Cymru, wedi'u cefnogi gan arbenigwyr allweddol. Bydd y cyfranogwyr yn cyfrannu amrywiaeth o sgiliau a safbwyntiau, gyda'r nod o fabwysiadu dull dysgu gweithredol. Bydd y tasglu'n cytuno ar flaenoriaethau, yn goruchwyllo'r ddarpariaeth, yn herio ac yn nodi sut gall eu timau ymgorffori'r dulliau hyn.

Dyma dair blaenoriaeth y bydd y tasglu'n canolbwyntio arnynt yn y lle cyntaf:

- cyflenwi rhaglen newid ymddygiad gyda'r wyddor ymddygiad ddiweddaraf, gan ddefnyddio dull integredig i uwch arweinyddwyr;

- asesu'r cynigion cyllideb cyfalaf strategol ar draws yr holl Brif Grwpiau Gwariant i nodi lle gellir gwella cynigion i sicrhau buddion bioamrywiaeth;
- datblygu rhaglen drawsnewidiol, aml-flwyddyn, seiliedig ar leoedd ar gyfer bioamrywiaeth fel rhan o adferiad natur ar ôl Covid, gan weithio mewn partneriaeth gyda chyryff anllwyodraethol amgylcheddol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

Bydd dadansoddiad cost a budd yn pennu pa gynigion eraill a fydd yn cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a'r rhai y gellir eu datblygu flwyddyn nesaf. Bydd y ffocws ar y camau gweithredu hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf o ran atal a dadwneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth.

## **Cyfoeth Naturiol Cymru**

### **9. Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y bwlch a ragwelir yng nghyllid Cyfoeth Naturiol Cymru?**

Yn ogystal â chyllid Cymorth Grant craidd gan Lywodraeth Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael incwm masnachol a nifer o symiau is o gyllid grant ar gyfer amrywiol brosiectau. Er nad yw'r union effaith ariannol yn glir eto, amcangyfrif Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mehefin, ar sail amgylchiadau'r farchnad bryd hynny a'r effaith bosibl ar werthiant pren, oedd gostyngiad o tua £8m yn ei gyllid refeniw masnachol o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, gallai'r amcangyfrif hwn newid wrth i farchnadoedd newid a'n bod yn cael mwy o wybodaeth am ragolygon Cyfoeth Naturiol Cymru.

Er bod pob corff cyhoeddus dan bwysau ariannol, rwyf wedi rhoi sicrwydd i Cyfoeth Naturiol Cymru o hyd at £5m o gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon pe bai hynny'n angenrheidiol a'i fod yn gallu dangos tystiolaeth o'r angen. Bydd hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau, yn enwedig o ran natur, ac i ddadwneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae'r pwysau hwn yn cael ei reoli yn y Prif Grŵp Gwariant yn y ffordd arferol.

Fel y gwyddoch, yn ei sesiwn gyda'ch Pwyllgor ar 9 Gorffennaf, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn teimlo bod y sicrwydd o £5m yn ddigon i'w alluogi i lenwi'r bwlch. Byddaf yn parhau i gael gwybod am effaith barhaus Covid-19 yn fy nghyfarfodydd rheolaidd â'r sefydliad. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud yn siŵr ein bod yn rheoli ei ddarpariaeth ar y cyd, ac yn deall y pwysau ariannol sydd arno.

## **Bwyd**

### **10. Oes modd i chi ddarparu diweddariad ar sefyllfa ddiweddaraf Llywodraeth Cymru o ran profi am Covid-19 mewn ffatrioedd prosesu bwyd?**

Y polisi o hyd yw nad oes angen i bobl wneud cais am brawf oni bai eu bod yn datblygu symptomau'r coronafeirws. Mae rhagor o wybodaeth am bryd dylid gwneud cais am brawf ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws-covid-19>

### **11. Oes modd i chi ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor ar y cyllid sydd wedi cael ei ddyrannu i fenter #CaruCymruCaruBlas, a'i wario gan y fenter?**

Ar ôl diwrnod cyntaf yr ymgyrch ar 3 Gorffennaf, roedd y cyrhaeddiad/argraffiadau drwy gyfryngau cymdeithasol yn 750,000, ac roedd cyrhaeddiad sylw yn y wasg yn 300,000. Mae ymateb y diwydiant wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol. Cynhaliwyd ail diwrnod

cyhoedduswydd ar 7 Awst, gan dargedu'r diwydiant lletygarwch. Tua £35-37K yw cost yr ymgyrch #CaruCymruCaruBlas. Mae'n rhan o'r Rhaglen Datblygu Masnach.

**12. Oes modd i chi roi eich asesiad presennol o ddiogelwch y cyflenwad bwyd yng Nghymru i'r Pwyllgor, gan gynnwys cydnerthedd cadwyni cyflenwi? A ydych yn credu bod angen cymryd unrhyw gamau gweithredu i gryfhau'r cydnerthedd hwnnw yng nghyd-destun ail don bosibl o heintiau Covid-19 (a'r cyfyngiadau cysylltiedig) dros y gaeaf?**

Mae'r cyflenwad bwyd wedi dychwelyd i'w gyflwr arferol, cyn Covid-19, ac eithrio'r sector gwasanaethau a chyfanwerthu. Mae'r cyfyngiadau symud yn dal i gael effaith fawr ar y rhain. Mae safleoedd gweithgynhyrchu a phrosesu'n dal yn gweithredu, ac mae'r cyflenwadau manwerthu o'r DU a'r rhai sy'n cael eu hallforio wedi adfer ar ôl y prinder a achoswyd gan brynu mewn panig yn ystod dechrau'r cyfyngiadau symud. Mae'r system bwyd wedi dangos cydnerthedd a hyblygrwydd yn ystod y cyfyngiadau symud, ac mae busnesau wedi bod yn fedrus wrth reoli cynrychiadau a logisteg, a rhoi cyfyngiadau prynu ar unrhyw gynnyrch prin er mwyn cynnal cyflenwadau i'r cyhoedd ledled Cymru a'r DU. Mae cyfuniad o bobl yn cael cyngor i warchod a'r ffaith nad oes llawer o bobl yn dymuno ymweld â siopau wedi achosi galw aruthrol am ddanfoniadau i'r cartref. Mae gwerthiannau drwy'r sianel hon wedi dyblu ac maent yn cael eu cynnal yn llwyddiannus.

Mae cyflenwad bwyd Cymru, ac felly diogelwch y cyflenwad hwnnw, wedi'u hintegreiddio'n gyfan gwbl â'r DU. Mae cadwyni cyflenwi'n gweithredu yng nghyd-destun y DU a ffin allanol y DU yw'r ffactor pwysig, gan ei bod yn dylanwadu ar lifoedd masnach, llafur ymfudol, a dyma'r pwynt lle mae effeithiau ar arian a thariffau'n effeithio ar brisiau a phenderfyniadau ynghylch caffael. O ganlyniad i hynny, mae'r holl weinyddiaethau datganoledig yn gweithio gyda DEFRA i asesu'r sefyllfa. Mae gennym rôl weithredol yn llunio cynlluniau ac asesiadau, ac mae Llywodraeth Cymru yn aelod uchel ei barch o'r rhwydweithiau rhanddeiliaid a gynullir gan DEFRA sy'n berthnasol i'r gwaith hwn. Mae cylch gweithgareddau sefydledig ac mae seilwaith yn ei le i gael safbwyntiau cynhyrchwyr a rhanddeiliaid bwyd. Rwyf yn cyfarfod â chynrychiolwyr archfarchnadoedd bob mis hefyd, er mwyn trafod materion. Nid yw'r asesiadau diweddar wedi nodi risgiau uniongyrchol, ac mae'r system bwyd yn ddiogel ar y cyfan.

Mae'r sylw eisoes wedi troi at risgiau ail don Covid-19 a'r ffaith y bydd y DU yn masnachu â'r UE ar delerau Sefydliad Masnach y Byd ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben os na fydd y DU a'r UE yn dod i gytundeb. Mae'n bwysig bod yn drylwyr ac yn barod, ac i beidio â gwneud rhagdybiaethau difeddwl. Mae'r asesiadau'n nodi, yn gyffredinol, mai'r dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd gan y gadwyn gyflenwi a llywodraethau ar y cyd i reoli Covid-19 hyd yma fyddai'r dulliau gorau o reoli amhariad yn y dyfodol. Hanfod llwyddo fydd cyfathrebu â'r cyhoedd i gynnal cydweithrediad ac i reoli'r risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

I helpu'r sector gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod, mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru a minnau wedi cyhoeddi cynllun adfer ar gyfer y misoedd i ddod, ac mae busnesau wedi cymryd rhan mewn gweminar ar y cynllun. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ei hymdrechion ar helpu busnesau i oroesi'r effaith uniongyrchol ac i droi eu sylw at baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb.

**13. Oes modd i chi roi diweddiariad i'r Pwyllgor ar amserlen eich ymateb i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r cod nwyddau groser?**

Cafodd ymgynghoriad ynghylch trefniadau contract yn y diwydiant llaeth ei lansio gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar 24 Mehefin 2020, a bydd yn cau ar

15 Medi 2020. Mae'r ymgynghoriad yn edrych ar faterion y gadwyn gyflenwi ar draws sector llaeth y DU, ac ar ddarparu amodau tecach ar gyfer contractau llaeth.

Hyd yma, mae'r gyfradd ymateb wedi bod yn gadarnhaol. Ar 17 Awst, roedd DEFRA wedi cael 208 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae nifer o ddigwyddiadau ar-lein i randdeiliaid gyda ffermwyr wedi cael eu cynnal yn barod. Byddwn yn adolygu'r ymatebion ar ôl i'r ymgynghoriad gau ar 15 Medi. Oherwydd bod hwn yn ymgynghoriad i'r DU gyfan, bydd angen i ni weithio'n agos gyda DEFRA a'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau'r canlyniad gorau i gynhyrchwyr llaeth Cymru.

Mae llywodraethau Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU wedi cydweithio i lansio'r ymgynghoriad 12 wythnos sy'n ceisio rhoi diwedd ar unrhyw arferion annheg yn y sector.

Rydym yn ymgynghori â ffermwyr a phroseswyr llaeth i archwilio a ellid cyflwyno rheoliadau i gynyddu tegwch a thryloywder. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno, o bosibl, contractau gorfodol yn y diwydiant llaeth.

Mae'r cynigion sydd wedi'u lansio yn yr ymgynghoriad yn cynnwys opsiwn i gyflwyno mecanwaith prisio gorfodol ym mhob contract rhwng ffermwyr a phroseswyr llaeth. Byddai'n sicrhau y cytunir yn ffurfiol yn y contract ar y pris a delir ar gyfer llaeth a gynhyrchwyd gan y ffermwr, a bod trafodaethau contract yn cael eu cynnal mewn modd clir, teg a thryloyw.

## **Brexit a Fframweithiau Cyffredin**

### **14. Oes modd i chi roi diweddariad i'r Pwyllgor ar unrhyw faterion perthnasol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar 29 Gorffennaf?**

Yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar 29 Gorffennaf, gwnaethom drafod is-ddeddfwriaeth, trefniadau ar gyfer y ffin, a chynigion a fframweithiau Llywodraeth y DU ar gyfer y farchnad fewnol. Yn ystod y trafodaethau ar is-ddeddfwriaeth, atgoffais DEFRA ein bod yn disgwyl digon o amser i'r Senedd ystyried unrhyw offerynnau statudol yn llawn. Cytunodd y Grŵp ei bod yn hollbwysig rhannu offerynnau statudol drafft cyn gynted ag y bo modd, a chefais sicrwydd y byddem yn cael cymaint o fanylion â phosibl yn ystod mis Awst.

Cawsom drafodaeth fer ar faterion yn ymwneud â'r ffin, a chytuno i'w hystyried yn fanylach yng nghyfarfod mis Medi. Pwysleisiais nad yw fformiwla Barnett yn ffordd addas o ariannu unrhyw seilwaith newydd ar y ffin.

Gwnaethom drafod papur gwyn diweddar Llywodraeth y DU ar y farchnad fewnol a mynegais siom Llywodraeth Cymru ei fod wedi cael ei gyhoeddi heb unrhyw ymgynghoriad, ac er gwaethaf tair blynedd o waith i gytuno ar ddull gweithredu ar gyfer fframweithiau a oedd wedi'i ddylunio'n arbennig i reoli unrhyw wahaniaethau rheoleiddiol yn y DU.

Gwnaethom gytuno ar ddull o gwblhau fframweithiau i sicrhau bod fframwaith dros dro ar waith ar gyfer pob maes erbyn diwedd y flwyddyn, ond mae hyn yn golygu y byddant yn cael eu cwblhau a'u rhoi ar waith yn llawn yn 2021. Ynghyd â'm Gweinidogion cyfatebol yn y Llywodraethau Datganoledig eraill, pwysleisiais pa mor bwysig yw hi bod pawb yn cytuno ar fframweithiau ac nad ydynt yn cael eu gorfodi. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar ôl pob cyfarfod drwy ddatganiadau ysgrifenedig a hysbysiadau y cytunir arnynt.

## **Llifogydd**

**15. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn darparu copi o'ch strategaeth newydd ar gyfer llifogydd pan gaiff ei chyhoeddi fis Medi.**

Cafodd y Strategaeth newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ei gosod gerbron y Senedd ym mis Gorffennaf 2020, cyn ei chyhoeddi'n llawn yn yr hydref. Mae'r ddogfen ar gael yn:

<https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld13343/gen-ld13343-w.pdf>

a

<https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld13343/gen-ld13343-e.pdf>

**16. Dywedoch wrth y Pwyllgor bod "cyllid sylweddol" wedi cael ei roi i awdurdodau lleol "i'w galluogi nid yn unig i ymchwilio, ond i gyhoeddi eu canfyddiadau a darparu seilwaith, os oes angen, i'w atal rhag digwydd eto". Faint sydd wedi cael ei ddyrannu at y diben hwn?**

Yn syth ar ôl stormydd mis Chwefror, cysylltodd Llywodraeth Cymru â phob awdurdod lleol ac â Cyfoeth Naturiol Cymru i wahodd ceisiadau am gyllid er mwyn gwneud gwaith trwsio brys i asedau lliniaru llifogydd.

Ers hynny rydym wedi darparu £4m o gyllid brys i awdurdodau lleol (i gefnogi eu swyddogaethau statudol fel Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd) yn 2019-20 a 2020-21. Cyhoeddwyd y cyllid hwn i gefnogi gwaith awdurdodau yn trwsio'r difrod a achoswyd gan lifogydd yn gynharach eleni. Mae ein cyllid brys i drwsio seilwaith perygl llifogydd, gan gynnwys amddiffynfeydd a chwlfertau, yn darparu ar gyfer yr holl gostau cyfalaf cysylltiedig. Cafodd cymorth ariannol ehangach arall ei ddarparu i awdurdodau lleol gan Adrannau eraill o Lywodraeth Cymru hefyd.

Ym mis Ebrill, roeddwn i wedi cyhoeddi rhaglen fuddsoddi Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar gyfer 2020/21. Yn 2020-21, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £35m o gyllid cyfalaf i gefnogi gwell amddiffyniad rhag llifogydd ac erydu arfordirol i gymunedau, gan ddarparu £27m o gymorth refeniw hefyd.

Yn ogystal â hynny, rydym yn parhau i edrych ar ffyrdd o wella ein cefnogaeth i Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd er mwyn cyflymu'r cynlluniau newydd a'r gwaith cynnal a chadw sydd yn yr arfaeth. Eleni, mae hyn yn cynnwys darparu cyllid 100% ar gyfer yr holl waith paratoi cyn adeiladu cynlluniau llifogydd ac arfordirol. Mae'r cymorth newydd hwn yn golygu bod Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd yn gallu cael gafael ar gyllid i dalu am gostau gwaith modelu a dylunio.

<https://llyw.cymru/rhaglen-rheoli-perygl-llifogydd-ac-arfordiroedd-2020-i-2021>

**17. A ydych yn meddwl bod y lefel bresennol o gyllid a ddarperir i awdurdodau lleol i ddelio â llifogydd yn ddigonol, o ystyried amllder cynyddol glawogydd eithriadol? A ydych yn credu y bydd rhaid darparu rhagor o gyllid i helpu awdurdodau lleol i ddelio â llifogydd dros y gaeaf?**

Mae mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn galw am weithredu ar y cyd ac mae gan Lywodraeth Cymru rôl ganolog yn hyn o beth. Dyna pam fy mod wedi datgan argyfwng hinsawdd a pham mae Llywodraeth Cymru bellach yn buddsoddi mwy nag erioed mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r wyddoniaeth yn dangos yn glir bod digwyddiadau tywydd tebyg i'r stormydd diweddar yn dod yn fwy a mwy cyffredin. Rwyf yn cydnabod bod effeithiau llifogydd yn eang: mae'n effeithio ar iechyd a lles unigolion, ar ein hamgylchedd naturiol, ac mae'n golygu colled i'r busnesau. Bellach, mae'r

Strategaeth ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn llywio ymyriadau ac yn sbarduno rhaglenni buddsoddi. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan Bwyllgor Llifogydd annibynnol Cymru.

Yn amlwg bydd angen cynnal lefelau buddsoddi sylweddol i helpu i ddiogelu a chefnogi'r cymunedau sydd yn y perygl mwyaf yn sgil effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol, yn enwedig oherwydd bydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn dwysáu'r peryglon sy'n wynebu ein cymunedau. Byddai setliadau cyfalaf a refeniw aml-flwyddyn ar gyfer rheoli perygl llifogydd, fel y gwelir yn Lloegr a'r Alban, yn helpu i gynllunio'n strategol yn y dyfodol ac yn rhoi hyder i Awdurdodau Rheoli Perygl wneud yr un fath, gan ddarparu ffrydiau darparu tymor hwy.

### **18. Pa bryd ydych yn disgwyl i awdurdodau lleol gyhoeddi eu canfyddiadau o'r gwaith sydd wedi cael ei ariannu?**

O dan Adran 19(1) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae cyfrifoldeb ar yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol i gynhyrchu adroddiad ymchwilio 'Adran 19' ar ôl achos o lifogydd.

Gellir cynhyrchu'r adroddiadau hyn yn gyflym, a gallant gynnwys unrhyw argymhellion i leihau llifogydd er mwyn galluogi awdurdodau lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno ceisiadau ychwanegol am gyllid Llywodraeth Cymru i leihau perygl llifogydd i gymunedau.

Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi dechrau cyhoeddi eu canfyddiadau, ond bydd yr amserlenni adolygu'n amrywio yn ôl nifer yr achosion o lifogydd ym mhob ardal awdurdod lleol, eu graddfa a'u natur, yn ogystal â chapasiti awdurdodau lleol. Ar ôl eu cwblhau, rhaid cyhoeddi'r adroddiadau er mwyn i'r cyhoedd, aelodau etholedig a phob parti arall â diddordeb allu craffu arnynt yn briodol.

### **19. Pa mor fodlon ydych fod y camau angenrheidiol wedi cael eu cymryd i'w "atal rhag digwydd eto"?**

Nid yw'n bosibl atal pob achos o lifogydd ac erydu arfordirol. Fodd bynnag, pan fydd pobl, cymunedau a busnesau dan fygythiad, gallwn reoli'r risg drwy leihau tebygolrwydd achos, a'i effeithiau a'i oblygiadau cysylltiedig.

Mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn rhagweithiol yn dal yn flaenoriaeth uchel i mi.

Yn gyfiawnadwy, mae Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn canolbwyntio ar leihau'r risg i gymunedau mewn ardaloedd sydd yn y perygl mwyaf. Yn hanesyddol, mae datblygiadau ar hyd afonydd, aberoedd a'r arfordir wedi bod yn ofynnol at ddibenion masnach, economaidd neu amaethyddol ond, dros amser, mae hynny wedi rhoi pobl mewn mwy o berygl o lifogydd. Mae'r datblygiadau ym meysydd peirianeg ac adeiladu'n golygu bod modd rheoli rhai o'r peryglon hynny, ond bydd rhywfaint o risg bob amser ac wrth iddi gynyddu, efallai y bydd angen cynlluniau lliniaru drud a gwaith cynnal a chadw parhaus i gadw pobl yn ddiogel.

Mae data gwell, mwy agored ar berygl llifogydd yn arwain at benderfyniadau gwell a mwy gwybodus ar ble dylid datblygu, a sut mae addasu cymunedau i gael gwared ar elfennau risg. Gall fy swyddogion hefyd roi gwybodaeth i'r cyhoedd i'w helpu i ddeall sut gallai llifogydd effeithio arnynt, er mwyn iddynt allu gwneud eu dewisiadau eu hunain o ran osgoi risg neu reoli eu risg personol.

Bydd y TAN 15 newydd yn darparu cyngor polisi mwy clir a chadarn ynghylch rheoli ardaloedd mewn perygl canolig ac uchel o lifogydd. Dylai polisiâu cynllunio a Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ategu ei gilydd, gan leihau'r risg drwy atal datblygiadau amhriodol ar y gorlifdir a helpu Awdurdodau Cynllunio i wneud penderfyniadau clir ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael.

## **Y Newid yn yr Hinsawdd**

### **20. Pa asesiad ydych wedi'i wneud o effaith newid ymddygiad neu benderfyniadau busnes, o ganlyniad i bandemig Covid-19, ar lefelau allyriadau?**

Mae'r gwaith o adrodd yn ffurfiol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn destun oedi. Mae'r data diweddaraf sydd gennym yn ymwneud â 2018. Cafodd eu cyhoeddi ym mis Mehefin – <https://lyw.cymru/allyriadau-nwyon-ty-gwydr-ffeithlun>

Fodd bynnag, mae nifer o astudiaethau ledled y DU a thu hwnt wedi ceisio rhag-weld effaith Covid-19 ar allyriadau. Er enghraifft, mae adroddiad cynnydd diweddaraf Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (sydd ar gael yn <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/Reducing-UK-emissions-Progress-Report-to-Parliament-Committee-on-Cli..-002-1.pdf>) yn awgrymu bod y cyfyngiadau ar symud a gweithgarwch economaidd wedi cael effaith.

Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio at senario y mae'r Asiantaeth Ynni Ryngwladol wedi'i chyhoeddi, sy'n rhag-weld gostyngiad o 8% mewn allyriadau CO<sub>2</sub> byd-eang yn 2020. Mae hefyd yn cyfeirio at amcangyfrif y Prosiect Carbon Byd-eang, sef gostyngiad o 2-7% mewn allyriadau byd-eang os bydd y cyfyngiadau symud yn rhai byrhoedlog, a 3-13% os bydd y cyfyngiadau ar waith yn fyd-eang nes diwedd y flwyddyn. Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn tynnu sylw at y tebygolrwydd mai'r adferiad fydd yn sbarduno allyriadau yn y tymor canolig, a buddsoddiadau ac agweddau at gydweithredu byd-eang fydd yn gwneud hynny yn y tymor hir.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar bawb yn y DU, ond fe allai gynyddu anghydraddoldebau iechyd a chyfoeth. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ni sicrhau bod ein gwaith o leihau allyriadau'n cael ei reoli mewn ffordd sy'n deg yn gymdeithasol ac yn economaidd.

### **21. A fyddwch yn cyhoeddi ymateb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad a gynhyrchwyd gan y grŵp sy'n cael ei arwain gan Chris Jofeh, a gafodd y dasg o ystyried cost ôl-osod cartrefi yng Nghymru ymysg pethau eraill?**

Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi gwneud Datganiad Llafar yn ymateb i Adroddiad Jofeh, ar 24 Medi 2019. Mae hwn ar gael yn y ddolen ganlynol. <https://record.assembly.wales/Plenary/5844#A53270>.

## **Lles Anifeiliaid**

### **22. Dywedoch wrth y Pwyllgor y byddwch yn cyflwyno Bil mewn perthynas â gwerthu cŵn bach gan drydydd parti. Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y bydd yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Oes modd i chi gadarnhau a fyddwch yn deddfu ar y mater hwn gan ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol ynteu is-ddeddfwriaeth?**

Gallaf gadarnhau fod y gwaharddiad arfaethedig ar werthiant masnachol cŵn a chathod bach gan drydydd parti yn cael ei awgrymu o fewn deddfwriaeth. Teitl dros dro'r



ddeddfwriaeth newydd yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021.

**23. Roeddech wedi cadarnhau bod ail ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar y mater. Oes modd i chi gadarnhau eich bod yn bwriadu ymgynghori ar destun y ddeddfwriaeth ddrafft?**

Nid oes cynlluniau i ymgynghori ar destun drafft y ddeddfwriaeth. Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn eithriadol o dynn. Mae swyddogion wrthi'n trafod â chyfreithwyr ynghylch y mater hwn. Bydd swyddogion yn rhoi cyngor i mi ar y mater hwn dros yr wythnosau nesaf a byddaf yn gwneud penderfyniad bryd hynny.

**24. Oes modd i chi roi diweddariad i'r Pwyllgor ar safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gynllun cymorth ar gyfer costau milfeddygol i berchnogion anifeiliaid anwes agored i niwed?**

Mae nifer o elusennau eisoes yn cynnig triniaeth filfeddygol â chymhorthdal i berchnogion anifeiliaid anwes nad ydynt yn gallu fforddio gofal milfeddygol i'w hanifeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i atgoffa darpar berchnogion anifeiliaid anwes i fod yn ymwybodol o gost lawn anifail anwes, gan gynnwys ffioedd milfeddygol ac yswiriant. Cafodd yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol #ArosAtalAmddiffyn ei lansio cyn y Nadolig i hybu pryniannau cyfrifol ac i atgoffa pobl o'r costau gydol oes sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar anifail anwes, yn enwedig cŵn bach. Nid oes cynlluniau i gyflwyno cynllun cymorth ar hyn o bryd.

## **Amaethyddiaeth**

**25. Beth yw'r amserlen ar gyfer ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig?**

Mae Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol wedi ymateb i adroddiad Archwilio Cymru, 'Sicrhau bod grantiau datblygu gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian', ar 13 Awst.

**26. Dywedodd eich swyddog wrth y Pwyllgor fod cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys darpariaeth i dalu dirwyon cosbau ariannol. Faint sydd wedi'i ddyrannu at y diben hwn?**

Y gyllideb a ddyrennir ar hyn o bryd i dalu cosbau ariannol posibl yw £13,954,692.99. Record Cymru o ran cosbau ariannol ar gyllid yr UE yw'r isaf yn y DU, ac mae ymysg yr isaf yn Ewrop.

**27. Pa ystyriaeth ydych wedi'i rhoi i'r cymorth parhaus i ddigwyddiadau a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gymunedau gwledig, yng nghyd-destun y cyfyngiadau sy'n deillio o bandemig Covid-19?**

Mae Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth wedi gweithio'n agos gyda thîm Ymateb i Covid canolog Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod canllawiau Covid-19 yn cael eu monitro'n barhaus a'u diweddarau wrth i sefyllfa Covid-19 ddatblygu, i wneud yn siŵr bod digwyddiadau a sefydliadau yn ein cymunedau gwledig yn deall yn glir y fframweithiau maent yn gallu gweithredu ynddynt ar hyn o bryd.

Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhanddeiliaid gwledig drwy'r amryw o sianeli sydd ar gael, er mwyn cefnogi ein cymunedau gwledig yn y Broses Adferiad Gwledig. Mae'r dolenni perthnasol i gymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau a chymunedau,

yn ogystal â dolenni i'r cymorth ehangach sydd ar gael gan ffynonellau eraill yn y sector cyhoeddus a sefydliadau elusennol, oll wedi cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe Rhwydwaith Gwledig Cymru, ynghyd â'r sianel cyfryngau cymdeithasol. Mae cyfres o weithdai'n cael eu datblygu drwy Rhwydwaith Gwledig Cymru, gan ddechrau yn yr hydref, er mwyn rhannu'r arferion gorau a darparu cyngor polisi.

Mae'r Cynllun LEADER o dan *Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru* (Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020) yn rhoi cymorth i gymunedau gwledig mewn 21 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Darperir y cymorth drwy 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol. Mae Grwpiau Gweithredu Lleol Cymru wedi nodi blaenoriaethau brys ar lawr gwlad mewn ymateb i Covid-19; ymysg y rhain mae sicrhau a dosbarthu bwyd a chyflenwadau meddygol i bawb, gan gynnwys y rhai mwyaf gwledig/sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol i'r graddau mwyaf. Maent wedi nodi adnoddau lleol ac wedi cynorthwyo drwy gydlyn gwirfoddolwyr, cefnogi cadwyni cyflenwi byr, rhwydweithio a chydweithio i sicrhau bod dull gwybodus a phriodol o ddiwallu anghenion lleol.

Yn ddiweddar, rhoddais gymeradwyaeth ar gyfer newid diben y Cynllun LEADER er mwyn cefnogi'r ymateb i argyfwng COVID-19. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Nodyn Cyfarwyddyd Ategol ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER a'u Cyrff Gweinyddol – COVID-19 a Chynllun LEADER" ar 29 Mehefin 2020. Roedd hwn yn lansio ymarfer ail-broffilio cysylltiedig, gan roi cyfle i bob Grŵp Gweithredu Lleol ddiwygio ei ddull neu ganolbwyntio ei gymorth yn wahanol, er mwyn ymateb i'r sefyllfa sydd ohoni. Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi cynnig ei gymorth ac wedi cynnal cyfarfodydd â Chyrff Gweinyddol LEADER i sicrhau eu bod yn manteisio'n llawn ar yr hyblygrwydd sydd ar gael er budd eu cymunedau gwledig yn ystod y broses adfer.

O ran digwyddiadau'n benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad o effeithiau pandemig Covid-19 ar sioeau amaethyddol. Mae cyd-weithwyr yn yr Is-adran Amaeth - Cynaliadwyedd a Datblygu yn gweithio gyda chynrychiolwyr o Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Sioe Sir Benfro a Sioe Môn mewn perthynas â'u cydnerthedd ariannol.

Daeth pob digwyddiad a mecanwaith cymorth wyneb yn wyneb Cyswllt Ffermio i ben ar unwaith ar 24 Mawrth 2020. Fodd bynnag, cafodd y dewisiadau cyflawni eu hadolygu'n gyflym a darparodd y contractwyr 'system goleuadau traffig, a oedd yn nodi pa wasanaethau fyddai modd eu rhoi ar waith yn rhwydd gan ddilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol a Rheoliadau'r Coronafeirws 2020. Cafodd darpariaeth ddigidol/ar-lein ei defnyddio'n ddiofyn lle bo'n briodol. Mae'r ymyriadau hynny a oedd yn perthyn i'r categori "gwyrdd" wedi ailddechrau ers 15 Mai 2020 – yn unol â Rheoliadau Coronafeirws Llywodraeth Cymru. Mae'r system goleuadau traffig wedi cael ei hadolygu'n rheolaidd, yn unol â'r adolygiadau bob tair wythnos gan Lywodraeth Cymru ac unrhyw ganllawiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar lacio'r cyfyngiadau. Mae'r HOLL ddarpariaeth wyneb yn wyneb un-i-un wedi ailddechrau ers 23 Mehefin 2020. Mae'r digwyddiadau un-i-lawer y gellir eu cynnal yn gyfan gwbl yn yr awyr agored gyda llai na 30 o bobl wedi ailddechrau ers 15 Awst 2020, a ailddechrodd hyfforddiant wedi'i achredu yn yr ystafell ddosbarth ar 1 Medi 2020, fel y cadarnhawyd yn ysgrifenedig ar 19 Awst 2020.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Lesley Griffiths AS  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

30 Gorffennaf 2020

Annwyl Lesley,



Diolch am eich presenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 9 Gorffennaf. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylwn ysgrifennu atoch yn sgil nifer o faterion a gododd yn ystod y cyfarfod hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod erbyn 10 Medi, er mwyn llywio trafodaethau yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 17 Medi, yr ydych wedi cytuno i fod yn bresennol ynddo.

### **Pysgodfeydd**



1. Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor eich bod wedi gobeithio gwneud datganiad ar bolisi pysgodfeydd y dyfodol ym mis Mawrth, ond bod y datganiad hwn wedi'i oedi oherwydd y pandemig COVID-19. A allwch ddweud wrth y Pwyllgor pryd yr ydych yn disgwyl gallu gwneud y datganiad hwnnw?
2. O ran Grant Pysgodfeydd Cymru, gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor fod 120 o longau wedi cael dros £0.5 miliwn mewn cymorth grant. A allwch gadarnhau beth yw diben y grant hwn a sut y byddwch yn asesu a yw'r grant wedi bod yn effeithiol?
3. Mae cyfanswm y grant, sef £0.5 miliwn, yn golygu y rhoddwyd tua £4,000 ar gyfartaledd i bob llong. A allwch gadarnhau eich bod yn fodlon bod y cyllid hwn yn ddigonol? Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer cymorth ariannol ychwanegol i'r sector hwn i helpu ei adfer?
4. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch gyfeirio at sawl esiampl o bysgota anghyfreithlon. A allwch roi manylion i'r Pwyllgor am lefelau gweithgarwch anghyfreithlon



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddNHAMG@senedd.cymru](mailto:SeneddNHAMG@senedd.cymru)  
 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddCCERA@senedd.wales](mailto:SeneddCCERA@senedd.wales)  
 0300 200 6565

yn ystod y cyfnod presennol lle nad yw llongau gorfodi wedi bod yn goruchwyllo dyfroedd Cymru? A allwch gadarnhau bod pob cwch gorfodi bellach yn weithredol?

### **Yr amgylchedd**

5. Rydym wedi clywed bod oedi o ran taliadau o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy wedi achosi problemau i rai cyrff anllywodraethol. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa ddiweddaraf ac amlinellu, os oes problemau sydd heb eu datrys eto, yr amserlen ar gyfer datrys y problemau hyn?
6. Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gyfeirio at yr angen i sicrhau adferiad gwyrdd yn dilyn y pandemig COVID-19. A allwch amlinellu'r cynlluniau ar gyfer adferiad gwyrdd yng Nghymru? A ydych yn bwriadu cyhoeddi cynllun neu strategaeth fel bod modd i bobl eraill weld y trywydd yr ydych yn bwriadu ei ddilyn?
7. Sut y bydd Aelodau o'r Senedd ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru yn gallu beirniadu a yw Llywodraeth Cymru wedi sicrhau adferiad gwyrdd?
8. A allwch ddarparu manylion am ddiben ac aelodaeth y tasglu bioamrywiaeth? Mae £0.5 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu i'r tasglu hwn, felly pa ganlyniadau ydych chi'n eu disgwyl yn sgil eich buddsoddiad?

### **Cyfoeth Naturiol Cymru**

9. Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch bwch cyllido disgwyliedig Cyfoeth Naturiol Cymru?

### **Bwyd**

10. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru ynghylch profi am COVID-19 mewn ffatrioedd prosesu bwyd?
11. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cyllid sydd wedi'i ddyrannu i'r fenter #CaruCymruCaruBlas ac sydd wedi'i wario gan y fenter hon?
12. A allwch gyflwyno i'r Pwyllgor eich asesiad presennol o ddiogelwch bwyd yng Nghymru, gan gynnwys gwytnwch cadwyni cyflenwi? A ydych yn credu bod angen cymryd unrhyw gamau i atgyfnerthu'r gwytnwch hwn yn sgil ail don bosibl o COVID-19 (a chyfyngiadau cysylltiedig) yn ystod y gaeaf?
13. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer eich ymateb i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r cod cyflenwi nwyddau groser?



## **Brexit a fframweithiau cyffredin**

14. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am unrhyw faterion perthnasol a drafodwyd yng nghyfarfod y grŵp rhyngweinidogol a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf?

## **Llifogydd**

15. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu copi o'ch strategaeth ar gyfer llifogydd pan gaiff ei chyhoeddi fis Medi.

16. Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor fod cyllid sylweddol wedi'i roi i awdurdodau lleol i'w galluogi nid yn unig i gynnal ymchwiliadau ond i gyhoeddi'r canfyddiadau cyn darparu seilwaith, yn ôl yr angen, i atal llifogydd yn y dyfodol. Faint o gyllid sydd wedi'i ddyrannu at y diben hwn?

17. A ydych yn credu bod lefel bresennol y cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol i ddelio â llifogydd yn ddigonol, o ystyried y cynnydd mewn achosion o lawiad eithafol? A ydych yn credu y bydd angen rhagor o gyllid i helpu awdurdodau lleol i ymateb i lifogydd yn ystod y gaeaf eleni?

18. Pryd ydych yn disgwyl i awdurdodau lleol gyhoeddi'r canfyddiadau sy'n deillio o'r gwaith a gyllidwyd?

19. Pa mor fodlon ydych chi fod y camau angenrheidiol wedi'u cymryd i atal llifogydd rhag digwydd eto?

## **Newid yn yr hinsawdd**

20. Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o'r effaith ar lefelau allyriadau o ganlyniad i newid ymddygiad neu benderfyniadau busnes sy'n deillio o'r pandemig COVID-19?

21. A fyddwch yn cyhoeddi ymateb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad a luniwyd gan y grŵp o dan arweiniad Chris Joffeh, a oedd â'r dasg o drafod cost ôl-osod cartrefi yng Nghymru, ymhlith materion eraill?

## **Lles anifeiliaid**

22. Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor y byddwch yn cyflwyno Bil mewn perthynas â gwerthu cŵn bach gan drydydd parti. Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y byddai'n ymdrin â'r mater hwn drwy is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. A allwch gadarnhau a fyddwch yn deddfu ar y mater hwn drwy ddeddfwriaeth sylfaenol neu drwy is-ddeddfwriaeth?

23. Gwnaethoch gadarnhau bod ail ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar y mater hwn. A allwch gadarnhau eich bod yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar destun y



ddeddfwriaeth ddrafft?

24. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru ynghylch cynllun i helpu perchnogion anifeiliaid anwes bregus i dalu costau milfeddygol?

### **Amaethyddiaeth**

25. Beth yw'r amserlen ar gyfer ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyllid o'r rhaglen datblygu gwledig?

26. Dywedodd eich swyddog wrth y Pwyllgor fod cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys darpariaeth i dalu cosbau ariannol. Faint o arian sydd wedi'i neilltuo at y diben hwn?

27. Pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i ddarparu cymorth parhaus ar gyfer digwyddiadau a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gymunedau gwledig yn sgil y cyfyngiadau o ganlyniad i'r pandemig COVID-19?

Yn gywir,



**Mike Hedges AS**

**Chair of Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.





Ein cyf/Our ref: CX20-148

Ty Cambria / Cambria House  
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road  
Caerdydd / Cardiff  
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:

[Chiefexecutivesoffice@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Chiefexecutivesoffice@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
[Chiefexecutivesoffice@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:Chiefexecutivesoffice@naturalresourceswales.gov.uk)

Ffôn/Phone:

0300 065 4453

Mike Hedges  
Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1SN

Via email - [Mike.Hedges@senedd.wales](mailto:Mike.Hedges@senedd.wales)

23 July 2020

Dear Mike,

**Re: NRW Staff Health and Wellbeing during Covid19**

At our recent meeting with the Committee, Joyce requested a note on our response to Covid in terms of staff wellbeing.

As we discussed in our session, as the Covid-19 crisis started to impact more significantly, our immediate concern was to consider our staff and the effects on their health and wellbeing, as well as ensuring effective business continuity of our prioritised business activities. From the outset we ran our response to Covid-19 along established incident management lines. We set up a Strategic Incident Response and Recovery Group (S-IRRG) reporting into Executive Team, and a Tactical IRRG (T-IRRG) to oversee the different phases. We are now largely through the Response phase, and well into Recovery, with the initial part looking at our medium-term Recovery and also the longer-term Renewal work.

The wellbeing of our staff is at the heart of what we do and will continue to be so. I am immensely proud of the way that NRW staff have responded to the crisis, and how hard they have worked during the lockdown period. We held a staff engagement survey in May, asking how they were coping with the impact of the pandemic, and if the organisation was providing the support that they needed to help us inform our future planning. The report is attached as an Annex for your information.

I pleased to say that around 1350 colleagues responded, and we really appreciated their engagement and honesty in saying how they felt and what we could learn for the future.

This survey will be regularly repeated, and alongside our Staff Engagement Group, provides the opportunity to listen, engage and act on staff views. There were many positives raised within the survey, with people considering that the organisation as a whole, and their colleagues and managers, had been very supportive. Flexible working, lack of commuting, increased time with family and impact on wellbeing were also mentioned as positives.

Exceptions that are still important to consider were childcare, caring roles, and health impacts where they exist, and as you would expect, there was some uncertainty about the continued Covid-19 situation and its impact on working arrangements. In this regard, workload, work-life balance, ergonomics and site working were highlighted. Most staff reported that they would like to continue to work from home or at least more flexibly going forward, so we will consider building that into future ways of working. This continuing feedback will help inform our medium-term stability and renewal work, ensuring that we take these comments on board when planning how we emerge from the pandemic.

From a health and safety perspective, we have been very active in our response to ensure the continued wellbeing of our staff and used both our S-IRRG and T-IRRG, with key leads in place to ensure appropriate procedures and arrangements were developed and followed.

A functional risk assessment for operational works was rapidly prepared, and we published a specific Covid page on our intranet site which includes links to a series of specifically prepared webinars and guidance for management and staff, including advice on hygiene, social distancing, remote working and mental health. An all-staff Covid update is issued weekly with the latest updates on government guidance and any changes to service provisions for the coronavirus period.

We have a free employee assistance programme where staff have access to NRW's employee assistance programme which can provide professional, confidential voluntary counselling and other assistance, and we have trained Mental Health First Aiders to provide support when needed. We also introduced a [#WellbeingHour – one hour of protected work time a week](#) for staff to use to do something which supported their health and wellbeing. I was delighted to see staff using this opportunity to explore their local environment, and we have had many lovely photographs published by staff on our intranet pages.

During the very early stages of the pandemic, our field and operations work was assessed to ensure that necessary activities could do so within government guidelines on social distancing, with health and safety our top priority. Some limited fieldwork has continued throughout Lockdown, mainly on our own Estate or in response to incidents. We are now



working with Welsh Government and others to establish clear principles for extending this to enable us to carry out a wider range of duties. The health and safety of our staff, and those whose land we are working on, is clearly of paramount importance and we have issued guidance on [Safe Working Procedures for operational sites](#), a pre-site checklist, toolbox talk and our fleet contains toolkits to ensure that contact points are kept clean.

As the pandemic has advanced, we have been looking at our estate, especially carparks, trails and visitor centres, and reviewing the WG guidance on access to the outdoors. Working closely with partners with similar sites, local authorities and communities we have now re-opened most of our carparks, walking and bike trails, but will continue to keep our Visitor Centres closed until we have a safe and workable model for their re-opening.

We remain clear that, in line with Welsh Government guidelines, those who can work from home should continue to do so for the foreseeable future, and only those who *must* work from an office or depot will be enabled to do so. Work continues to make our offices and depots safe and accessible to those staff that can't work from home, on a phased basis. Each of our sites has a Senior Responsible Officer to oversee this work, which includes reconfiguring desks and common areas, hand sanitiser station points, and demarcation of floors to ensure social distancing. We have also made physical alterations to our buildings such as installing screens at our reception areas, and installing fire door guards to minimise unnecessary contact whilst still complying with fire regulations, and ensuring adequate signage throughout all areas, covering social distancing guidelines, handwashing and reminding staff of Covid 19 symptoms. Cleaners are on site during the day to make sure that high contact areas are kept clean, each office has a nightly deep clean, and going forward, those essential workers allowed into offices will use a booking system to ensure numbers are kept to an appropriate level to maintain social distancing requirements.

A functional office safety risk assessment has been produced along with safe working guidance for returning to offices. All documentation produced is updated according to any changes in Welsh Government or Public Health Wales guidance. If anyone does show any Covid symptoms, the SRO will shut the office or site down and it will be deep cleaned before any staff can resume working there.

I hope that this provides some assurance that we are doing all that we can to protect the wellbeing of our staff during this difficult time. As we are now largely through Response phase, we have started to undertake the Review of the Response stage. This incident has been like no other, and it is important we reflect and review what went well, and where improvements can be made. This will help inform not only the Recovery stages of our work, but also any future incidents. We may of course have to go back to a Response phase, depending on the continued spread of the virus and WG advice, so we remain focused on the emerging situation, with our Response teams ready and able to respond as necessary.

As I discussed, part of our Recovery work is to develop our longer-term approach to what we are calling 'Renewal' – in other words, how we want the organisation to work in the future. This is looking at what we want to retain from our current ways of working, how these can be embedded, and how we, as an organisation, can lead the Green Recovery with more efficient and low impact operations so that there is a positive legacy from this time of great adversity. I understand that David has written to you about the work he is leading on the Green Recovery, and we will continue to keep you informed as this progresses.

Best wishes,

Clare

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Clare Pillman', with a horizontal line underneath.

Clare Pillman  
**Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru**  
**Chief Executive, Natural Resources Wales**

[NRW : Pulse Survey Wellbeing, Work and Covid-19 final report](#)

Lesley Griffiths AS/MS  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mike Hedges AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

13 Awst 2020

Annwyl Mike

Wrth imi ateb cwestiynau atodol y Pwyllgor ar ôl y sesiwn graffu ym mis Tachwedd 2019, cytunais i roi diweddariad ymhen chwe mis am hynt y gwaith o ddatblygu cynllun gorfodol ar gyfer Prynu Gwybodus, ynghyd â gwybodaeth am y gofynion deddfwriaethol angenrheidiol. Ymrwymais hefyd i roi diweddariad ichi ar ôl imi ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr adolygiad o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014.

### Prynu Gwybodus

Fel y gŵyr pawb ohonom, mae'r byd yn lle gwahanol iawn i'r hyn ydoedd chwe mis yn ôl, a bu'n rhaid inni fel Llywodraeth addasu'n gyflym er mwyn mynd i'r afael â'r pandemig a'r blaenoriaethau a oedd yn dod i'r amlwg yng Nghymru. Er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael yn y meysydd a oedd yn cael blaenoriaeth wrth inni ymateb ac ymladd COVID-19, rhoddwyd saib dros dro i'n polisïau a'n cynlluniau peilot ym maes TB. Mae hynny'n cynnwys datblygu system orfodol ar gyfer Prynu Gwybodus. Rydym yn dechrau ailgydio yn ein gwaith arferol ac mae swyddogion yn addasu, yn mabwysiadu ffordd newydd o weithio ac yn cyfathrebu gyda'n rhanddeiliaid er mwyn parhau i ddarparu'r Cynllun Dileu TB yma yng Nghymru.

Yn gynharach eleni, gwnaethom agor y cynllun Grantiau ar gyfer marchnadoedd unwaith eto, gan roi cyfle i farchnadoedd gwartheg uwchraddio'u cyfleusterau er mwyn iddynt gael dangos gwybodaeth am TB yn y man gwerthu, gan wneud hynny'n wirfoddol. Mae'n destun siom mai dim ond un farchnad o blith 25 o farchnadoedd cymwys a wnaeth gais yn ystod y cylch cyllido newydd hwnnw.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein nod wrth ailagor y cynllun grantiau oedd rhoi cyfle arall i farchnadoedd gyflwyno cais. Mae'r marchnadoedd yn dweud wrthym nad yw gwerthwyr yn darparu gwybodaeth ac nad yw prynwyr yn gofyn am wybodaeth, felly, o'r herwydd, nid oes gwybodaeth hanfodol yn cael ei rhannu ynghylch o le y mae ffermwyr yn cael eu gwartheg ac ynglŷn â hanes y gwartheg hynny o ran TB. Yn fy marn i, yn yr hirdymor, dim ond system orfodol fydd yn gwneud yn siŵr bod y rheini sy'n gwerthu gwartheg yn datgelu yn y man gwerthu hanes y fuches o ran y clefyd. Fy mwriad, yn y tymor canolig, pan fydd adnoddau'n caniatáu hynny, fydd cyflwyno darpariaeth i'w gwneud yn orfodol i werthwyr ddarparu gwybodaeth am TB pan fydd gwartheg yn cael eu gwerthu.

Er mwyn gwneud Prynu Gwybodus yn orfodol, byddai angen newid Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010, a byddai gofyn ymgynghori â'r diwydiant. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw arwydd o bryd y bydd adnoddau cyfreithiol ar gael ar gyfer y maes pwnc hwn, a hynny oherwydd y pwysau sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac Ymadael â'r UE. Bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried pa rai o blith y polisïau ehangach lle byddai angen newid deddfwriaeth y dylai roi blaenoriaeth iddynt yn syth, a bu'n rhaid iddi hefyd ystyried yr hyn y gellir ei gyflawni yn ystod gweddill tymor y Senedd hon. Yn anffodus, ni fydd modd newid y Gorchymyn TB yn ystod tymor y Senedd hon.

O gofio'r cyfyngiadau presennol yn sgil COVID-19, bydd angen i ffermwyr a fydd am brynu gwartheg newydd feddwl yn ofalus am hanes yr anifeiliaid, a'r buchesi o le y dônt, o ran TB.

Hoffwn annog ffermwyr i ddefnyddio gwefan ibTB ([www.ibtb.com](http://www.ibtb.com)) i gael rhagor o wybodaeth am TB yn eu hardal ac am statws TB y buchesi o le y daw'r gwartheg y byddant yn eu prynu. Mae ibTB wedi cael ei wella'n ddiweddar i ddangos:

- achosion cyfredol, ac achosion wedi'u datrys, o TB yng Nghymru a Lloegr dros y 10 mlynedd diwethaf
- dolenni defnyddiol at safleoedd perthnasol eraill
- gwell adnoddau 'cymorth'
- darlun cliriach ar y map o hyd a lled unrhyw glystyrau o achosion.

Bydd fy swyddogion yn parhau i hyrwyddo manteision prynu gwybodus ymhlith ffermwyr a gweithredwyr marchnadoedd yng Nghymru. Bydd y gwaith hwnnw'n cynnwys cynnig cyngor ac arweiniad priodol i ffermwyr a gweithredwyr marchnadoedd. Mae gwaith ar droed ar hyn o bryd i sicrhau bod yr Hyb TB yn fwy perthnasol i ddefnyddwyr yng Nghymru. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol oddi wrth y diwydiant am yr arweiniad clir a roddwyd i ffermwyr ar yr Hyb TB yn ystod y pandemig COVID-19, a'n nod yw parhau â'r momentwm hwnnw.

#### Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014

Fel y crybwyllwyd yn fy Natganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 4 Mawrth, dim ond drwy newid deddfwriaeth y bydd modd gweithredu rhai o'r argymhellion. Fodd bynnag, os yw rheoliadau newydd am fod yn effeithiol, rhaid inni hefyd fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu'r awdurdodau lleol wrth gymryd camau gorfodi, cyn inni gynnig diwygiadau i'r Rheoliadau Bridio cyfredol. Mae'r angen am gysondeb ar ran yr awdurdodau lleol wrth iddynt arolygu, gorfodi a defnyddio adnoddau, yn hollbwysig er mwyn diogelu lles cŵn magu a'u hepil. Nid oes cynifer o safleoedd bridio cŵn mewn rhai ardaloedd o Gymru ag sydd mewn eraill ac mae hynny'n golygu bod rhai o'r awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd ymdopi â'r galw.

O gofio hynny, ar ôl cais llwyddiannus am gyllid, mae gwaith ar droed bellach ar brosiect peilot a fydd yn para am gyfnod o dair blynedd ac a fydd yn golygu y bydd modd meithrin arbenigedd drwy hyfforddiant arbenigol, gwell canllawiau a thrwy wella sgiliau staff penodedig yn yr awdurdodau lleol.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cefnogi gwaharddiad ar werthu cŵn bach a chathod bach drwy drydydd parti, ac fel y gwyddoch, rydym wrthi'n ymgynghori am y mater hwn ar hyn o bryd.

Bydd y cyfuniad o reoliadau newydd ar werthu anifeiliaid anwes, cymorth ariannol penodedig er mwyn gwella'r gwaith o orfodi a gweithredu'r Rheoliadau Bridio presennol yn arwain at welliannau parhaol i'r safonau lles ar gyfer cŵn bach sy'n cael eu magu yng Nghymru.

Cofion

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

# Eitem 4.4

Lesley Griffiths AS/MS  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/2661/20

Mike Hedges AS/MS  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

[SeneddCCERA@senedd.wales](mailto:SeneddCCERA@senedd.wales)

3 Medi 2020

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Gorffennaf ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Pysgodfeydd.

## **Diweddariad i'r Pwyllgor ar oblygiadau'r diwygiadau gan Dŷ'r Arglwyddi i Gymalau 1, 18, 27 a 48 o ran polisi a datganoli**

Rydych wedi gofyn imi roi diweddariad ysgrifenedig ar oblygiadau'r diwygiadau hyn o ran polisi a datganoli. Fel y gwelwch, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno diwygiadau ar gyfer cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin i wrthdroi'r diwygiadau a wnaed yn ystod cam Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi i Gymalau 1, 18, 27 a 48. Ceisiodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol, Victoria Prentis AS, fy marn ar y mater hwn, a dweud ei bod yn cefnogi ysbryd y diwygiadau, ond nad yw'r diwygiadau'n gadarn o safbwynt deddfwriaethol a chyfansoddiadol. Mae fy safbwynt i fel a ganlyn:

### **Cymal 1 – yr amcan cynaliadwyedd**

Mae'r diwygiad hwn yn peri ansicrwydd cyfreithiol. Yn fy ymateb i'r Gweinidog Prentis, gydnabŵm y pryderon a oedd wedi cael eu lleisio, a nodi y byddai angen mireinio'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 36**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddarpariaeth hon ymhellach er mwyn rhoi'r flaenoriaeth briodol i gynaliadwyedd amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy. Mae hyn yn ganolog i'n dull ar gyfer rheoli pysgodfeydd, sy'n cyd-fynd â'n dyletswyddau o dan ein deddfwriaeth flaenllaw ar gyfer Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016, i sicrhau datblygu cynaliadwy wrth inni gyflawni ein nodau llesiant, ac i reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Bydd y polisiau yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn adlewyrchu'r dyletswyddau hyn a'n hymrwymiad cryf i sicrhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Yn hyn o beth, rwyf wedi pwysleisio wrth y Gweinidog Prentis ein bod yn cefnogi ysbryd y diwygiad, ac rwyf wedi gofyn iddi wneud hyn yn glir yn ystod cam y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

### **Cymal 18 – y gofyniad glanio cenedlaethol**

Fel y mae wedi'i ddrafftio nid yw'r diwygiad hwn yn adlewyrchu'r setliad datganoli, ac mae amodau trwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cwch o'r DU sefydlu cysylltiad economaidd â'r DU eisoes ar waith. Rydym yn bwriadu datblygu ymhellach bolisiau Cymru mewn perthynas â'r gofyniad am gyswllt economaidd, fel rhan o'r gwaith cyfannol o ddatblygu ein polisiau pysgodfeydd ar gyfer y dyfodol – yn ddarostyngedig i broses graffu'r Senedd. Felly, nid oes angen y ddarpariaeth hon ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil y DU.

### **Cymal 48 – monitro electronig o bell**

Mae'r diwygiad hwn yn torri ar draws ein setliad datganoli, a chan ei fod yn fater datganoledig, Gweinidogion Cymru a ddylai benderfynu ar y dull priodol mewn perthynas â Chymru. Rydym yn bwriadu datblygu ymhellach bolisiau Cymru mewn perthynas â monitro electronig mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion a chyd-destun fflyd Cymru. Felly, nid oes angen y ddarpariaeth hon ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil y DU.

### **Cymal 27 – cwota newydd o ddyraniad Lloegr ar gyfer gweithredwyr newydd a chychod o dan ddeg metr**

Roedd gennym bryderon uniongyrchol ynghylch sut y gellid dehongli'r ddarpariaeth hon, oherwydd ei bod yn bosibl y byddai'n effeithio ar "gronfa" cwota'r DU. Er ein bod yn nodi nad dyma'r bwriad, gallai effeithio ar ein cymhwysedd datganoledig. Felly, dim ond ar ôl i gyfleoedd pysgota gael eu dyrannu i bob gweinyddiaeth y dylai unrhyw glustnodi gael ei gynnal.

Gobeithiaf fod yr esboniad hwn a'r diwygiadau a gyflwynwyd ar gyfer cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn rhoi'r eglurder rydych yn ei geisio.

### **Diwygiadau i Atodlen 10**

Rydych wedi gofyn dau gwestiwn am y diwygiadau yn Atodlen 10 i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, a newid cyfeiriadau at weinyddiaethau pysgodfeydd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Rydych yn gofyn:

#### **A allwch egluro'r sail resymegol ar gyfer hyn, yn benodol pam mae'r swyddogaethau perthnasol yn cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn hytrach na'r gweinyddiaethau pysgodfeydd o fewn darpariaethau sy'n ymwneud â gweithredu neu arsylwi ar rwymedigaethau rhyngwladol, mater sydd wedi'i ddatganoli?**

Gweithiodd fy swyddogion yn agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU, yn dilyn dadansoddiadau cyfreithiol o bob cyfeiriad yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, i benderfynu pwy sy'n gyfrifol am y rolau, yn unol â'r setliad datganoli. Roedd y swyddogion yn glir iawn ynghylch manylion y setliad datganoli mewn perthynas â rhwymedigaethau rhyngwladol a'n rôl wrth eu gweithredu. Fy marn i yw bod y rhain wedi cael eu cymhwyso yn gywir mewn perthynas â'r setliad datganoli. Rwyf wedi rhoi tabl yn Atodiad 1 i egluro'r sail resymegol ar gyfer y diwygiadau a wnaed drwy Atodlen 10 i'r Bil.

Yn eich llythyr rydych yn cyfeirio at gyfleoedd pysgota a therfynau ar fiomas stoc silio, ac yn gofyn:

#### **A allwch gadarnhau a fyddai hyn yn galluogi rhoi cyfleoedd pysgota lle mae'r stoc o dan y terfyn perthnasol?**

Mae'r diwygiadau hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i'r Cynlluniau Aml-flwyddyn presennol, gan gynnwys gwneud gweithredu'r darpariaethau allweddol ynddynt yn ddarostyngedig i amrywiad pan nodir "newid perthnasol mewn amgylchiadau" (mae hyn yn gyson â'r dull yn y Bil ar gyfer y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a Chynlluniau Rheoli Pysgodfeydd). Er enghraifft, pe bai stoc o dan y terfyn perthnasol ond yn rhan o bysgodfa rhywogaethau cymysg, ni fyddai'n briodol gwrthod cyfle pysgota lle y byddai hyn i bob pwrpas yn cau'r holl bysgodfa neu, pe caniateid i'r ddarpariaeth barhau, yn arwain at farwolaethau ymhlith y stoc berthnasol beth bynnag. Mewn amgylchiadau o'r fath byddai'n briodol gosod cyfle sgil-ddalfa isafswm i osgoi tagu'r pysgodfeydd â stoc gysylltiedig.



Gobeithiaf fod y wybodaeth hon yn rhoi'r eglurder ychwanegol sydd ei angen arnoch ar gyfer eich ymateb i'r adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Hoffwn nodi mai'r dyddiad cau ar gyfer hwn yw 24 Medi.

### **Yr amserlen ar gyfer y Bil a'r camau nesaf**

Roeddwn am gloi drwy roi diweddariad ar yr amserlen ar gyfer y Bil. Cynhaliwyd Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 1 Medi a disgwylir i gam y Pwyllgor gael ei gynnal rhwng 8 a 17 Medi. Mae nifer o ddiwygiadau gan y llywodraeth wedi cael eu cyflwyno ar gyfer cam y Pwyllgor, a hoffwn dynnu eich sylw at y rheini. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gytuno ar y diwygiadau sy'n ymwneud â Chymru, a hoffwn roi cadarnhad cynnar fy mod i'n eu cefnogi.

Mae'r ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i threfnu ar gyfer 29 Medi, cyn cam Adroddiad Tŷ'r Cyffredin, yn unol â'n dull arferol o geisio sicrhau bod gan Senedd y DU amser i ystyried penderfyniad y Senedd ynghylch cydsyniad cyn i Fil gael ei basio. Bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cael ei osod cyn gynted ag y bo modd.

Yn ogystal, hoffwn ddefnyddio'r cyfle hwn i drafod ymhellach rai o'r argymhellion yn eich adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

### **Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

#### Argymhelliad 6

Yn fy ymateb i'ch adroddiad ar y Memorandwm, gynigiais ysgrifennu atoch i amlinellu'r atebion a gafodd eu hystyried, a rôl Erthygl 33, yn dilyn eich argymhelliad ar y mater hwn.

Rydym wedi ystyried ymhellach a allai geiriad Erthygl 33 o Reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, fel y'i diwygiwyd gan yr Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig â gadael yr UE a'r Bil Pysgodfeydd, leihau'r pryderon mewn perthynas â chynnwys toll ar gynnyrch cynaliadwy mwyaf.

Mae Erthygl 33 yn dweud (*Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw*) 1) "Where stocks of common interest are also exploited by third countries, [...] the Secretary of State must make every effort to reach common arrangements for fishing of such stocks with a view to making the sustainable management possible" a 2) "endeavour

to establish bilateral or multilateral agreements with third countries for the joint management of stocks”

Mae hyn, wrth gwrs, yn rhoi sicrwydd y bydd negodiadau Llywodraeth y DU yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn, a'i bod wedi'i rhwymo i ymddwyn mewn modd cyfrifol wrth drafod stociau pysgod â Gwledydd Arfordirol. Fodd bynnag, nid yw'r geiriad yn gwarantu unrhyw ganlyniadau, ac yn wir, mae'n debyg na ellid ei ddefnyddio i wneud hynny (o ystyried y partïon amryfal sy'n rhan o'r negodiadau hynny).

I gydnabod y pryderon a leisiwyd ynghylch cynnyrch cynaliadwy mwyaf, ac i roi rhagor o sicrwydd ynghylch dull y DU gyfan ar gyfer rheoli ein pysgodfeydd domestig mewn modd cynaliadwy, wrth gydnabod ansicrwydd y negodiadau rhyngwladol am bysgodfeydd, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno dull y cynllun rheoli pysgodfeydd sy'n cynnwys lefelau uwch o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae hyn yn ychwanegol at yr ymrwymiad cynnyrch cynaliadwy mwyaf a wnaed yn yr amcanion pysgodfeydd eu hunain. Rwy'n disgwyl i'r Cyddatganiad Pysgodfeydd a'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd bennu targedau pan fydd hynny'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r diwydiant pysgota ac ymchwilwyr gwyddonol, yn ogystal â phartïon eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys DEFRA a'r gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill, i sicrhau bod y ffordd mae ein pysgodfeydd yn cael eu rheoli'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac yn sicrhau bod moroedd Cymru yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy. Mae'r dull hwn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cael ei adlewyrchu yn amcan tystiolaeth wyddonol Bil Pysgodfeydd y DU, Bil rydym yn ei gefnogi'n llawn.

#### Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chymal 24 (pennu cyfleoedd pysgota)

Dywedais hefyd y byddwn yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud i gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y Fframwaith Pysgodfeydd, ac yn benodol y cynnydd mewn perthynas â chymal 24 (cymal 23 yn flaenorol). Mae fy swyddogion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgor sydd wrthi'n drafftio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (gan gynnwys y Mekanwaith Datrys Anghydfod ac ystyried y Concordat). .

Yn lle'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, sy'n dal i gael ei ddatblygu ac na fydd felly yn barod cyn diwedd taith y Bil, rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am gytundeb ar y materion allweddol y mae angen sicrwydd yn eu cylch er mwyn argymhell bod y Senedd yn

rhoi cydsyniad i'r Bil. Byddaf yn rhannu canlyniad y cais hwn â'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd.

Rwyf wedi ysgrifennu mewn modd tebyg at Mike Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cofion

A handwritten signature in cursive script that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a light grey or blue ink.

**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

## Atodiad 1 Rhesymeg y diwygiadau a wnaed trwy Atodlen 10 y Bil

Cyfraith yr UE a ddargedwir (yn Atodlen 10)	Rhesymeg dros newid o “gweinyddu pysgodfeydd” i “Ysgrifennydd Gwladol”
<b>Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Rheoliad (EU) rhif 1380/2013)</b>	
Erthygl 28, 29 a 33	<p>Mae Erthygl 28 yn nodi mai amcan polisi pysgodfeydd allanol y Deyrnas Unedig yw sicrhau bod adnoddau biolegol y môr ac amgylchedd y môr yn cael eu defnyddio, eu rheoli a'u gwarchod yn gynaliadwy trwy sicrhau bod cysylltiadau allanol y Deyrnas Unedig yn cael eu cynnal yn unol â'i hymrwymiaadau rhyngwladol ac amcanion ei pholisiau.</p> <p>Mae Erthygl 29 yn darparu y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gefnogi a chyfrannu mewn ffordd weithredol at weithgareddau sefydliadau rhyngwladol sy'n ymdrin â physgodfeydd gan gynnwys sefydliadau rheoli pysgodfeydd rhanbarthol.</p> <p>Mae Erthygl 33 yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgysylltu â thrydydd gwledydd gyda golwg ar sicrhau bod stociau sydd o ddi-ddordeb cyffredin i'r DU a'r trydydd gwledydd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.</p> <p>O dan baragraff 10 (1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cysylltiadau rhyngwladol yn fater wedi'i gadw yn ôl. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn cynnwys cysylltiadau â gwledydd y tu allan i'r DU, â'r UE a'i sefydliadau ac â chyrrff rhyngwladol eraill.</p> <p>Er bod paragraff 10(3) yn cadarnhau nad yw cadw at ymrwymiaadau rhyngwladol yn rhan o'r mater a gedwir yn ôl a'i fod felly yn fater datganoledig, nid ydym o'r farn bod yr Erthyglau uchod yn gofyn am gadw at ymrwymiaadau rhyngwladol.</p> <p>Bydd Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, trwy Ddeddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018, yn dod yn rhan o lyfr statud y DU fel cyfraith wedi'i dargadw yr UE. Cafodd ei ddiwygio gan Reoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/739). Gwnaeth Rheoliad 3 y Rheoliadau hynny sefydlu gweinyddiaethau pysgodfeydd y DU a phennu'u cylchoedd gwaith, hynny i ddelio ag unrhyw ddeddfwriaeth UE perthnasol a gaiff ei dargadw sy'n ymwneud â'r polisi pysgodfeydd cyffredin. Gwnaeth Rheoliad 3 ddiwygio hefyd erthyglau 28, 29 a 33 i drosglwyddo swyddogaethau o dan yr erthyglau hyn o sefydliadau'r UE i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.</p> <p>O ran Cymru, Gweinidogion Cymru yw'r weinyddiaeth pysgodfeydd gan y byddai'r rhwymedigaeth neu'r pŵer o dan sylw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os bydd wedi'i gynnwys/chynnwys mewn Deddf gan y Senedd neu os y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi'i (g)osod neu ei r(h)oi trwy arfer un o'u swyddogaethau yn union cyn y diwrnod ymadael. Os nad yw'r pŵer neu'r rhwymedigaeth yn perthyn i'r naill categori na'r llall, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r weinyddiaeth sy'n gyfrifol am bysgodfeydd ac felly'n delio â'r mater hwnnw mewn perthynas â Chymru.</p> <p>Mae'r diwygiadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan Reoliadau 2019 i'r Erthyglau hyn yn golygu bod y swyddogaethau o dan yr erthyglau hynny i bob pwrpas eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, yn unol â'r setliad datganoli. Barn swyddogion felly yw nad yw'r diwygiadau a wnaed trwy Atodlen 10 yn newid y sefyllfa hon, dim ond yn ei chrisialu.</p>
<b>Rheoliad (UE) 2018/973 – Cynllun Aml-flynyddol Môr y Gogledd</b>	

Erthygl 4, 6 & 13	<p>Mae Erthygl 4 yn ymdrin â thargedau marwolaethau pysgod trwy bysgota, ac fel y'i diwygiwyd, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn i ICES, neu gorff gwyddonol annibynnol tebyg arall sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol, am ddata.</p> <p>Mae Erthygl 6 yn ymwneud â gofyn i ICES neu gorff gwyddonol annibynnol tebyg arall sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol, am gyfeirnodau cadwraeth.</p> <p>Mae Erthygl 13 yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gysylltu â thrydydd gwledydd i sicrhau bod stociau sydd o ddiddordeb i'r DU a'r drydedd wlad yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy sy'n gyson â'r Rheoliad Sylfaenol.</p> <p>O dan baragraff 10 (1) a (2) o Ran 1 Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae cysylltiadau rhyngwladol yn fater wedi'i gadw yn ôl. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn cynnwys cysylltiadau â gwledydd y tu allan i'r DU, â'r UE a'i sefydliadau ac â chyrff rhyngwladol eraill.</p> <p>Er bod paragraff 10(3) yn cadarnhau nad yw cadw at ymrwymïadau rhyngwladol yn rhan o'r mater a gedwir yn ôl a'i fod felly yn fater datganoledig, nid ydym o'r farn bod yr Erthyglau uchod yn gofyn am gadw at ymrwymïadau rhyngwladol.</p> <p>Cafodd Erthyglau 4, 6 ac 13 y Rheoliad hwn eu diwygio gan Reoliad 25 o Reoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/753) i drosglwyddo swyddogaethau o dan yr erthyglau hyn o sefydliadau'r UE i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.</p> <p>O ran Cymru, Gweinidogion Cymru yw'r weinyddiaeth pysgodfeydd gan y byddai'r rhwymedigaeth neu'r pŵer o dan sylw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os bydd wedi'i gynnwys/chynnwys mewn Deddf gan y Senedd neu os y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi'i (g)osod neu ei r(h)oi trwy arfer un o'u swyddogaethau yn union cyn y diwrnod ymadael. Os nad yw'r pŵer neu'r rhwymedigaeth yn perthyn i'r naill categori na'r llall, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r weinyddiaeth sy'n gyfrifol am bysgodfeydd ac felly'n delio â'r mater hwnnw mewn perthynas â Chymru.</p> <p>Mae'r diwygiadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan Reoliadau 2019 i'r Erthyglau hyn yn golygu bod y swyddogaethau o dan yr erthyglau hynny i bob pwrpas eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, yn unol â'r setliad datganoli. Barn swyddogion felly yw nad yw'r diwygiadau a wnaed trwy Atodlen 10 yn newid y sefyllfa hon, dim ond yn ei chrisialu.</p>
-------------------	---

**Rheoliad (UE) 2019/472 Cynllun Aml-flynyddol Dyfroedd y Gorllewin**

Erthygl 4, 7 & 15	<p>Mae Erthygl 4 yn ymdrin â thargedau marwolaethau pysgod trwy bysgota, ac fel y'i diwygiwyd, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn i ICES, neu gorff gwyddonol annibynnol tebyg arall sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol, am ddata.</p> <p>Mae Erthygl 7 yn ymwneud â gofyn i ICES neu gorff gwyddonol annibynnol tebyg arall sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol, am gyfeirnodau cadwraeth.</p> <p>Mae Erthygl 15 yn ymwneud â defnyddio stociau sydd o ddiddordeb cyffredin gan drydydd gwledydd. Mae'n darparu y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gysylltu â'r trydydd gwledydd hynny i sicrhau bod y stociau hynny'n cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy sy'n gyson â'r Rheoliad Sylfaenol.</p>
-------------------	--

O dan baragraff 10 (1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cysylltiadau rhyngwladol yn fater wedi'i gadw yn ôl. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn cynnwys cysylltiadau â gwledydd y tu allan i'r DU, â'r UE a'i sefydliadau ac â chyrrff rhyngwladol eraill.

Er bod paragraff 10(3) yn cadarnhau nad yw cadw at ymrwymïadau rhyngwladol yn rhan o'r mater a gedwir yn ôl a'i fod felly yn fater datganoledig, nid ydym o'r farn bod yr Erthyglau uchod yn gofyn am gadw at ymrwymïadau rhyngwladol.

Bydd Rheoliad (UE) 2019/472, trwy Ddeddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018, yn dod yn rhan o lyfr statud y DU fel cyfraith wedi'i dargadw yr UE. Cafodd ei ddiwygio gan Reoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac Anifeiliaid (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/1312). Gwnaeth Rheoliad 6 ddiwygio erthyglau 4, 7 a 15 i drosglwyddo swyddogaethau o dan yr erthyglau hyn o sefydliadau'r UE i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.

O ran Cymru, Gweinidogion Cymru yw'r weinyddiaeth pysgodfeydd gan y byddai'r rhwymedigaeth neu'r pŵer o dan sylw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os bydd wedi'i gynnwys/chynnwys mewn Deddf gan y Senedd neu os y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi'i (g)osod neu ei r(h)oi trwy arfer un o'u swyddogaethau yn union cyn y diwrnod ymadael. Os nad yw'r pŵer neu'r rhwymedigaeth yn perthyn i'r naill gategori na'r llall, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r weinyddiaeth sy'n gyfrifol am bysgodfeydd ac felly'n delio â'r mater hwnnw mewn perthynas â Chymru.

Mae'r diwygiadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan Reoliadau 2019 i'r Erthyglau hyn yn golygu bod y swyddogaethau o dan yr erthyglau hynny i bob pwrpas eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, yn unol â'r setliad datganoli. Barn swyddogion felly yw nad yw'r diwygiadau a wnaed trwy Atodlen 10 yn newid y sefyllfa hon, dim ond yn ei chrisialu.

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Mike Hedges AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd,  
Amgylchedd a Materion Gwledig

16 Gorffennaf 2020

Annwyl Mike

**Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Gorffennaf, ac am ystyriaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU, a'i argymhellion.

Gweler ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad yn Atodiad A.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y sefyllfa bresennol o ran ystyriaeth o'r Bil gan Senedd y DU a Senedd Cymru. Roedd y Bil yn cael ei ystyried gan bwyllgor bil cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin, ond cafodd eisteddiadau'r Pwyllgor eu gohirio ar 18 Mawrth nes clywir yn wahanol. Disgwylir bellach i'r Pwyllgor gyflwyno ei adroddiad erbyn dydd Mawrth 29 Medi. Ni chafwyd unrhyw ddiweddariad o ran pryd y bydd y broses graffu seneddol yn ailgychwyn mewn perthynas â'r Bil.

O ystyried yr ansicrwydd ynghylch amserlen Biliau'r DU, nid oes dadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi'i threfnu ar gyfer y Senedd ar hyn o bryd. Rwy'n disgwyl iddi bellach gael ei chynnal ar ôl toriad yr haf.

Yr eiddoch yn Gywir

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 45**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad A

### Ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

<b>Argymhelliad</b>	<b>Ymateb Llywodraeth Cymru</b>
<b>Argymhelliad 1.</b> Argymhellwn fod y Senedd yn cydsynio i ddarpariaethau Bil Amgylchedd y DU, os bydd yn fodlon ar ymateb y Gweinidog i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.	<b>Derbyn</b>  Croesewir eich argymhelliad y dylai Senedd Cymru roi ei chydsyniad. O'r 15 o argymhellion a wnaed gennych, bu modd i mi dderbyn 14. Mae un wedi'i dderbyn mewn egwyddor ac rwyf wedi nodi fy rhesymau dros hyn mor glir â phosibl.  <b>Goblygiadau Ariannol</b> – Dim.
<b>Argymhelliad 2.</b> Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ymgynghori ar gynigion a/neu reoliadau drafft cyn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir yn y Bil.	<b>Derbyn</b>  Yn unol â'r Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n gywir ac yn briodol â'r rhai y mae'n debygol y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt, a'r rhai y bydd ganddynt fuddiant yn ei heffaith gyffredinol, cyn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir yn y Bil.  <b>Goblygiadau Ariannol</b> – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
<b>Argymhelliad 3.</b> Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod sefydliadau trydydd parti, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cael adnoddau priodol i gyflawni dyletswyddau neu gyfrifoldebau ychwanegol sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil hwn.	<b>Derbyn</b>  Mae'r pwerau tracio gwastraff yn cynnwys darpariaeth i Gyfoeth Naturiol Cymru greu cynllun codi tâl fel ffordd o adennill costau yr aethpwyd iddynt wrth gyflawni eu swyddogaethau newydd mewn perthynas â'r maes hwn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a swyddogion gweinyddiaethau datganoledig eraill i fynd â'r prosiect tracio gwastraff hwn rhagddo ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Gyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi ei gyfraniad.  Mae Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r Cynllun Dychwelyd Ernes yn cael eu dylunio ar sail yr egwyddor bod y llygrwr yn talu. Felly, bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr rhwymedig y mae'r cynlluniau'n ymdrin â nhw dalu ffi. Bydd angen i hyn gwmpasu ystod o elfennau gan gynnwys costau unrhyw gydymffurfiaeth a gwaith monitro angenrheidiol. Mae swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud yn llawn â'r gwaith o ddatblygu'r ddau gynllun ac yn datblygu modelau costio i sicrhau bod y costau a gaiff eu hadennill gan gynhyrchwyr yn adlewyrchu'r costau y



	<p>byddant yn mynd iddynt mewn unrhyw weithgarwch rheoleiddio.</p> <p>Mewn perthynas â Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunyddiau pecynnu, mae'r polisi'n pennu bod cynhyrchwyr yn talu'r costau net llawn ar gyfer casglu, trin a phrosesu deunyddiau pecynnu a ddefnyddiwyd. Lle bo Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am hyn, mae'r cynllun yn cael ei ddylunio i sicrhau y bydd yn talu costau'r gwasanaethau casglu gwastraff perthnasol.</p> <p>Mae darpariaethau'r Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff yn effeithio ar gwmnïau dŵr a Chyfoeth Naturiol Cymru. Caiff unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol a roddir ar Gyfoeth Naturiol Cymru a'u goblygiadau o ran adnoddau eu hasesu'n ofalus yn erbyn ei gylch gwaith a'r rhwymedigaethau statudol, ac ymgynghorir â Chyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol y broses. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo cyn hyn i ymgynghori ar unrhyw ofynion y cynigir eu rhoi ar Gyfoeth Naturiol Cymru a'r cwmnïau dŵr.</p> <p>Byddai'r pwerau mewn perthynas â draenio tir yn darparu pŵer gwneud rheoliadau er mwyn i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer pennu gwerth tir arall (nad yw'n amaethyddol) mewn ardal ddraenio fewnol yng Nghymru. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae'r Byrddau Draenio Mewnol yn cyfrifo gwerth cyfraddau draenio ar gyfer tir nad yw'n amaethyddol gan ddefnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar restrau prisio hen ac anghyflawn.</p> <p>Bydd cydsynio i ddarpariaeth yn y Bil mewn perthynas â Chymru yn caniatáu i Gyfoeth Naturiol Cymru gyfrifo gwerth tir nad yw'n amaethyddol yng Nghymru gan ddefnyddio methodoleg amgen, gan y bydd yn gallu defnyddio data amgen ar gyfer y cyfrifiadau hyn. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn defnyddio methodoleg amgen ar gyfer cyfrifo gwerth tir ac adeiladau amaethyddol er mwyn osgoi'r posibilrwydd o gamystumio'r cyfrifiad dosrannu.</p> <p>Caiff gwaith Byrddau Draenio Mewnol ei hunan-ariannu, gan fod y praeseptau yn helpu i dalu am y gwaith rheoli a'r adnoddau cysylltiedig. Bydd y newidiadau arfaethedig yn y Bill yn ei gwneud yn symlach ac yn decach drwy gywiro'r mesurau/cyfrifiadau cynharach nad oeddent yn ymdrin â thir nad yw'n amaethyddol.</p> <p><b>Goblygiadau Ariannol –</b> Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p><b>Argymhelliad 4.</b> Mae'n rhaid i'r Gweinidog roi diweddariad i'r Senedd cyn y ddadl ar y</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae trafodaethau â Defra yn parhau a byddaf yn rhoi diweddariad i'r Senedd ar y cynnydd a wnaed ar ôl toriad yr haf.</p>

<p>Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, ar y cynnydd a wnaed wrth sicrhau diwygiad i Gymal 24 i ddarparu ar gyfer cydweithio rhwng yr OEP ac unrhyw gorff llywodraethu cyfatebol yng Nghymru. Os na ellir sicrhau diwygiad i Gymal 24, mae'n rhaid i'r Gweinidog nodi pa fesurau a gaiff eu cyflwyno i sicrhau cydweithio rhwng cyrff yng Nghymru a Lloegr/y DU.</p>	<p><b>Goblygiadau Ariannol</b> – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p><b>Argymhelliad 5.</b> Dylai'r Gweinidog bennu amserlen ar gyfer sefydlu mesurau llywodraethu amgylcheddol interim ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben ac ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Y bwriad yw y bydd y mesurau interim ar waith erbyn diwedd y Cyfnod Gweithredu. Fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod proses gŵynion ar waith, a fydd yn darparu tudalen we benodol ar gyfer llywodraethu amgylcheddol a ffurflen gwyno. Caiff unrhyw gŵynion a gyflwynir eu cydnabod, eu cofnodi a'u cynnwys mewn adroddiad blynyddol.</p> <p>Mae'n fwriad gennyf hefyd roi proses ar waith i'w gwneud yn bosibl i bob cwyn gael ei hasesu'n annibynnol a, lle yr ystyrir ei bod yn fater brys neu ddifrifol, ei huwchgfyfeirio. Unwaith eto, ein nod yw rhoi hyn ar waith erbyn diwedd y Cyfnod Gweithredu, ond bydd hyn eto yn ddarostyngedig i godi'r cyfyngiadau presennol ar benodiadau cyhoeddus o ganlyniad i COVID-19.</p> <p><b>Goblygiadau Ariannol</b> – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p><b>Argymhelliad 6.</b> Dylai'r Gweinidog gyhoeddi adroddiad y grŵp rhanddeiliaid a orchmynnwyd ganddi i ystyried trefniadau llywodraethu amgylcheddol yn y dyfodol yng Nghymru. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y grŵp.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Dylai adroddiad y rhanddeiliaid gael ei gyhoeddi ynghyd â dadansoddiad opsiynau pellach wedi'i gostio pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau yn yr hydref.</p> <p><b>Goblygiadau Ariannol</b> – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p><b>Argymhelliad 7.</b></p>	<p><b>Derbyn</b></p>

<p>Dylai'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau bod Cynllun Dychwelyd Ernes Llywodraeth Cymru yn gymwys i'r amrywiaeth ehangaf o gynwysyddion fel na roddir unrhyw gyfyngiadau ar faint na math y cynwysyddion sy'n gymwys ar gyfer y cynllun.</p>	<p>Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i ddatblygu cynigion fel sail i ymgynghoriad pellach i lywio dyluniad terfynol y cynllun. Disgwylir i'r prosiect hwn gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2021. Bwriedir i'r ymgynghoriad nodi meintiau cynwysyddion a'r mathau o ddeunyddiau y bydd y Cynllun Dychwelyd Ernes yn eu cwmpasu. Rwy'n cytuno ag argymhelliad y Pwyllgor y dylai hyn gwmpasu amrywiaeth eang o ddeunyddiau a meintiau poteli.</p> <p><b>Goblygiadau Ariannol</b> – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p><b>Argymhelliad 8.</b> Dylai'r Gweinidog roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor ar y gwaith sy'n cael ei wneud i asesu'r sail dystiolaeth ar gyfer treth neu ffi a godir ar blastigau untro.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Cyn COVID-19, roedd cefnogaeth gynyddol gan y cyhoedd i lywodraethau weithredu yn erbyn eitemau plastigau untro, lleihau deunydd pecynnu a hyrwyddo cynhyrchion amldro. Er bod hyn yn debygol o fod yn wir o hyd, mae rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod pandemig COVID-19 wedi creu pryderon am ddiogelwch defnyddio cynhyrchion amldro, yn arbennig cwpanau amldro, ac mae rhai manwerthwyr ar y stryd fawr yn rhoi gwaharddiad dros dro ar ddefnyddio cwpanau amldro.</p> <p>Rydym yn cydnabod nad busnesau yn unig a fydd yn cael eu herio – gallem weld newidiadau yn ymddygiad prynwyr wrth i gyfraddau cyflogaeth ostwng ac incwm aelwydydd leihau o ganlyniad i'r effaith sylweddol y mae COVID-19 wedi'i chael ar yr economi. Efallai y bydd peth amser cyn y bydd defnyddwyr mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau prynu premiwm neu ddewisiadau mwy cynaliadwy.</p> <p>Bydd angen ymateb cytbwys i'r gwrthdaro rhwng pryderon cyhoeddus am hylendid yn y byrdymor a'r nod tymor hwy o fynd i'r afael â'r llygredd a greir gan blastigau untro diangen. Yn y pen draw, ein nod fydd canolbwyntio ar hybu ein huchelgeisiau hirdymor o ddiogelu'r amgylchedd, yn unol â'n hamcanion ar gyfer Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Mae'r gwaith i asesu'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch codi treth neu ffi bosibl ar gwpanau untro yn parhau, a bydd yn ystyried ein hegwyddorion o ran polisi treth, yn ogystal ag effeithiau tymor hwy posibl COVID-19 ar ymddygiadau defnyddwyr a'r diwydiannau dan sylw.</p> <p>Byddai angen mynd ati'n ofalus i gydgyssylltu unrhyw fesur treth neu ffi a godir ar gwpanau untro â mentrau ehangach er mwyn sicrhau bod y newidiadau ymddygiadol bwriadedig yn cael eu hannog heb fod hynny'n rhoi baich gormodol ar fusnesau. Mae hyn yn cynnwys Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, y Cynllun Dychwelyd Ernes, gwaharddiadau ar eitemau plastig untro penodol sydd ar y gweill (a fydd yn cynnwys cwpanau polystyren</p>

